# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

**Rhif 167** **MEDI 1990**

## *Merci Madam Jeffreys!*

(Tudalen 6)



*Morgen Hall*

**CYNNWYS**

Colofn Shân ...... 3
Sêr ...... 5
Bwth Ruth ...... 4
Safbwynt ...... 7
Y Calendar ...... 4
Croesair ...... 19

**YN RHAD AC AM DDIM**

*"Ers 1973, bu gan British Telecom Cymru a'r Gororau bolisi dwyieithog wedi ei ddatblygu'n llawn ac sy'n cael ei ystyried yn eang fel polisi blaengar yn y ffordd y caiff ei ddefnyddio.*

*Felly, ein polisi ers cyfnod hir yw y dylai unrhyw un sy'n dymuno cynnal ei fusnes yn Gymraeg allu gwneud hynny.*

*Yr oeddem ni ymhlith y cyntaf i groesawu'r canllawiau gwirfoddol ar gyfer y sector preifat a gyhoeddwyd y llynedd gan Fwrdd Yr Iaith Gymraeg ac roedd gan British Telecom ran yn eu llunio.*

*Yr ydym yn barod wedi ei gwneud yn hysbys fod argraffiad nesaf Llyfr Ffôn Gogledd Orllewin Cymru yn mynd i gynnwys Cymraeg a bydd ganddo ddelwedd ddwyieithog. Hefyd fe fydd cyfarwyddiadau dwyieithog yn cael eu arddangos mewn blychau ffôn cyhoeddus mewn rhai rhannau o Gymru.*

*Gallwn ddisgwyl, gyda datblygiadau'r dyddiau yma gan gynnwys cyflwyno'r Gymraeg fel pwnc craidd yn y cwricwlwm, y bydd datblygiad cyflym mewn diddordeb yn yr iaith. Wrth i'r iaith dyfu o ran cryfder bydd British Telecom yn cynnal ei bolisi blaengar."*

British
TELECOM
Cymru a'r Gororau

# COLOFN SHÂN

**Wel, ble dechreuai dewch? Ynghanol wythnos yr Eisteddfod rhaid neilltuo egwyl i'r golofn hon. Fore Sadwrn agoriadol yn y llwch yn y maes parcio, meddyliais fy mod wedi croesi'r Paith i weld Luned Gonzales yn hytrach na'i bod hi wedi dod yma i gynrychioli "Cymru a'r Byd". Roedd y maes parcio y peth tebyca a welais i'r darn sala o'r ffordd rhwng Trelew ac Esquel – ond heb y rhamant o fod yn y gornel bellenig honno. Wn i ddim chwaith, mi roedd yna ramant yng Ngwm Rhymni gydol yr wythnos. Profiad digri oedd teithio'n ddyddiol efo llond dybal decar o Eisteddfodwyr i'r maes. Cafwyd amal i sgwrs ddifyr.**

Ymfalchio yn y Seremoni Agoriadol, bod yr Eisteddfod enfawr hon yn cael gosod ei phabell ar ben mynydd sy'n dalcen caled i'r bugeiliaid sydd yno yn gwarchod y Gymraeg. Ymfalchio yn urddas yn phersonoliaeth Luned Gonzales yn cydio moelni Bryn Bach â llymdra'r paith yn y Tir Pell. Emosiynol ydwi? Ydw. A tydwi ddim wedi gorffen chwaith. Fel hogan y Pafiliwn, mi rydwi'n poeni dipyn bach nad ydio bellach yn ganolbwynt maes yr Eisteddfod. Os yn bosib mi garwn i iddo fod ar ganol y maes. Wedi'r cyfan, dros y blynyddoedd ryda ni wedi chwerthin am ein pennau ein hunain ein bod yn codi cwt yng nghanol cae a threulio wsnos yn cerdded o i gwmpas! Ond, yn y blynyddoedd dwytha ma, mewn cornel o'r maes y mae'r



pafiliwn wedi ei osod. Yn yr Wyddgrug, os yn bosib, plis gai o yng nghanol y cae? Ddydd Mawrth sefydlwyd Darlith Goffa'r Fonesig Amy Parry-Williams yn y Stiwdio Gerdd, a brenin byd yr alawa werin Dr Meredydd Evans yn darlithio. O gofio cyfraniad Cymreigyddion y Fenni, Brwdfrydedd Arglwyddes Llanofer a llwyddiant Maria Jane Williams yn diogelu i ni y gyfrol "Ancient National Airs of Gwent and Morgannwg", addas oedd mai yng Nghwm Rhymni y traddodwyd y ddarlith gyntaf. Ro'n i'n rhyw deimlo bod y cymeriadau hyn rywle yn y gwynt, yn edrych arnom dros y canllawiau, ac yn rhoi sêl bendith ar yr holl ymdrechion ac yn dweud "mai da ydoedd". Fedrwch chi ddychmygu peidio â gwybod a methu â mwmian Dafydd y Garreg Wen, Bugeilio'r Gewnith Gwyn, a'r Bore Glas i enwi dim ond rhai o'r trysorau a ddiogel wyd i ni gan gymwynaswr o Went o Morgannwg? Ia, rhyw wythnos o "Gwêl uwchlaw cymylau amser" fu hi. Hynny'n ennyn hyder, brwdfrydedd a gobaith yn ein hymdrechion bach a mawr. Credaf bod angen edrych yn ofalus ar holl weithgarwch y 'Steddfod, y mae yna beryg iddi fod yn fwy o Ŵyl nag o 'Steddfod, y gweithgareddau ymylol mewn peryg o dagu amcan sylfaenol yr Eisteddfod. Does gen i ddim oll yn erbyn y gweithgareddau ymylol cofiwch, diolch am dwf a datblygiad y blynyddoedd sydd wedi sicrhau Pabell Lên deilwng, Pafiliwn Celf a Chrefft, Theatr Fach y Maes, Stiwdio Gerdd, Gwyddoniaeth, Pabell Tantrym ac yn y blaen. OND-Steddfod ydwi isio ac nid cymysgwch o Ŵyl a Ffair.

Diolch i drigolion Cwm Rhymni am 'u haelioni, 'u hynawsedd, 'u cynhesrwydd a'u hiwmor yn torchi llawes i hybu iaith anghyfarwydd i'r mwyafrif o'r trigolion. Pan ddaw'r 'Steddfod i fro fel hon, mae'n cyfiawnhau unwaith ac am byth i mi bod yn rhaid i'r 'Steddfod fod yn symudol. Mae iddi ei lle yn yr ardaloedd a ystyrir yn gadarnleoedd y Gymraeg, ond hefyd yn yr ardaloedd Seisnig poblog yn ogystal. Onid yn yr ardaloedd hynny y mae twf, brwdfrydedd a gobaith newydd? Cefais y pleser hefyd o dywys Ifan Emyr ar hyd y tracfyrddau yn ei 'steddfod gynfaf. Sut Gymru fydd hi pan fydd o yn ganol oed? Gwahanol iawn yn sicir, ond gwell gobeithio.

Gwyliau hir ddisgwyliedig o'm blaen, gadael gofalon am gwta bythefnos a mynd i Ganada. Ac at beth ydwi'n edrych ymlaen ato? Gweld, synhwyro a deall dwyieithrwydd Quebec. Ydwi'n hollol boncyrs? Ond mae yna lawer tebyg i mi ond oes. Oes dwch?

## LLONGYFARCH

Penodwyd Mr William Henry Raybould (Bill Raybould) yn gyfarwyddwr newydd PDAG i olynu'r Dr Gareth Edwards a fydd yn dychwelyd i'w swydd yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth.

Ganed Mr Raybould, sy'n 46 mlwydd oed, yng Nghaerdydd lle cafodd ei addysgu yn Ysgol Uwchradd Cathays ac yna yng Ngholeg y Brifysgol lle graddiodd yn y Gymraeg. Bu'n astudio Eingl Sacsoneg yng Nghaergrawnt cyn cychwyn ar ei yrfa addysgu, yn gyntaf yn Brentwood Essex, ac yna Ysgol Gyfun Brynmawr. Bu'n darlithio yn y Gymraeg yn Athrofa Addysg Uwch De Morgannwg cyn ei benodi'n Bennaeth yr Uned Iaith Genedlaethol yn Nhrefforest.

Ers chwe mlynedd bu'n Arolygwr Ysgolion ei Mawrhydi, gyda gofal am y Gymraeg, yn ardal Gwynedd.

Bydd Mr Raybould yn cychwyn ar ei swydd fel Cyfarwyddwr PDAG ar 1 Medi 1990.

## CYDYMDEIMLAD

Bu farw Richard Tudwal Davies yn sydyn, yn 37 oed, ar Fehefin 22ain ychydig fisoedd ar ôl marwolaeth ei dad, Huw. Mae'n anodd dod o hyd i eiriau i gysuro ei fam, Eluned, and gobeithio bydd breichiau cariadus ei chyfeillion yn gyfrwng i'w chynnal a hithau, bellach, dan driniaeth yn Ysbyty Cyffredinol Caerdydd. Cofiwn yn annwyl hefyd am Wendy, chwaer Richard, a'i gŵr Tony yn eu hiraeth.

## LLONGYFARCH

Braf iawn oedd clywed am enedigaeth mab bychan i Angharad ac Emyr Lewis. Ein llongyfarchiadau iddyn nhw a phob dymuniad da i'r teulu yn er centre newydd yng Nghraig Cefn Parc, Abertawe, a chofion hefyd at y neiniau a'r teidiau, Bethan a Kynric yn Llysfaen a Diddawy a Douglas y Llandudoch.

## DIOLCH

Diolch i Eglwys Saar y Fro am gyfraniad o £25 ac i Gymrodorion Caerdydd am rodd o £20 tuag at Y Dinesydd. Hefyd bu Cylch Cinio Cymraeg y Barri yn hael iawn yn danfon £50 i chwyddo'n coffrau. Derbynsom gyfraniadau hefyd gan Mr a Mrs Gwilym Humphreys (Bangor), Mrs Margaret Russell a Mr Morgan Mainwaring (Minny Street), Mr a Mrs Glyn Owen a Mrs Alma Carter. 'Rydym yn ddiolchgar iawn am bob cyfraniad.

## DIOLCH

Diolchion i Harri Pritchard Jones am golofn "Safbwynt" yn rhifyn Gorffennaf/Awst. Ymddiheurwn nad oedd ei enw ar gwr yr erthygl.

# BWTH RUTH



Wel helo, pa hwyl sydd? Gawsoch chi wyliau da? . . . Na, tydwi ddim wedi cael fy rhai i eto – mis Hydref fydd hi ac mi gewch yr hanes!

Mi ges i gais dipyn yn wahanol yn ddiweddar – na, nid i roi noson i Glwb Cinio Dynion, na Merched y Wawr nag agor Garddwest fel mae Huw Ceredig yn giamster ar wneud *ond* i agor Cartre hen Bobl!!!. Diwrnod "Agor y Drws" ym Mhlas Cefn Maen oedd dan sylw.

Roedd y llythyr o wahoddiad gan Ann ac Eric Edwards sy'n ffermio Plas Cefn Maen, Saron ger Dinbych yn un mor annwyl fedrwn i ddim llai na derbyn. Dowch erbyn hanner dydd meddai'r gwahoddiad er mwyn i ni gael tamaid o ginio cyn agor y lle yn ffurfiol am 2.30pm. Dyma gyrraedd y fferm yn ddi-drafferth gan fod yna fap yn gynwysiedig hefo'r llythyr a chopi o'r hysbyseb oedd wedi ei anfon i bob cwr o'r ardal.

Cinio dydd Sul go iawn oedd ar ein cyfer – cig oen wrth gwrs a chlamp o 'drif-fle' wedyn hefo dipyn o 'roch' ynddo fo.

Yn ôl yr hysbyseb roedd yna groeso cynnes i bobl ymweld â'r cartref o 1.30pm ymlaen – a do, mi ddaeth yna lawer yn gynnar er mwyn cael cerdded o gwmpas y cartref – gweld yr ystafell eistedd braf hefo soffas a chadeiriau cyfforddus wedi eu gosod mewn grwpiau bach – nid y cylchau mawr bondigrybwyll hefo pawb yn edrych ar ei gilydd. Roedd yr ystafell fwyta yn wynebu buarth y fferm – dyna braf ynde, medru bod yn rhan o'r hyn sy'n mynd ymlaen ar y fferm. Does dim byd gwaeth fuaswn i'n feddwl i rywun sydd wedi treulio'r rhan helaethaf o'i oes yn byw mewn ardal wledig na gorfod byw mewn tref neu mewn ardal na dydio'n ei nabod.

Mae'r stafelloedd gwely yn braf ac yn olau hefo'r manion angenrheidiol – gwely, cwpwrdd dillad, cwpwrdd wrth y gwely, lamp a.y.b. ond yn bwysig iawn drôr preifat hefo goriad iddo – "Preifatrwydd yn bwysig iawn" meddai Ann, fel mae cadair isel er mwyn medru plygu i roi'ch sanau, a sedd ffenest ddofn i eistedd arni er mwyn gweld y tymhorau a chadw llygad ar waith pob fferm yn yr ardal.

Y baddondy oedd yn werth ei weld hefyd – y baddon hefo offer pwrpasol i bobol hŷn neu fethedig fynd mewn ac allan o'r bath yn ddi-ymdrech a di-drafferth.

Dim problem o gwbwl hefo dringo'r grisiau chwaith ac mi ges brofi'r gadair 'Stannah' wyrthiol sy'n cario i fyny ac i lawr y grisiau. Gwaith hawdd iawn oedd brolio'r lle ac agor drws ffrynt cartref mor braf, a phobol lwcus iawn fydd yr wyth ddaw yma i aros i Blas Cefn Maen.

Dyma ddywed yr hysbyseb:

1. Cartref Cymreig ei naws i wyth o bobol.
2. Stafelloedd braf gyda golygfa odigog (gwir bob gair).
3. Bwyd blasus a chroeso bob amser (sut allwch chi fethu ag Aga yn y gegin a chwstad ŵy, potes, pwdin bara a bwydydd tebyg ar y fwydlen: dwi wedi clywed am ambell i le yn cynnig Chilli Con Carne cofiwch.
4. Gofal a pharch (hanfodol ac mi roedd hyn yn amlwg yn y nifer a'r math o bobol ddaeth draw i'r agoriad ac a fu'n fodlon siarad yn uchel ac yn barchus am deulu Plas Cefn Maen a'r fenter).
5. Cyfleus i'r teulu ymweld – (a chroeso i unrhyw yn ymweld oedd yr hyn deimlais i yno).
6. A llawer mwy – (ie, cwmni Eric a hwnnw yn dangos diddordeb tawel ym mhopeth, ac Ann sy'n arian byw a ferch a'i nod ydi 'gofalu').

Fe gafwyd te a phlatiaid o ddanteithion i o leia gant a hanner o bobol ac mi dreuliais i bnawn wrth fy modd yn mwynhau cwmni cymdogion, ardalwyr, yn hen ac ifanc – dyna i chi siarad cyhoeddus gwerth ei glywed.

Mi roedd yna dynnu coes y byddai gwaith y gweinidog Y Parchedig W H Pritchard yn haws hefo wyth dan yr unto ac fe addawyd y byddai yna dipyn o fynd a dwad o Ysgol y pentre meddai'r Brifathrawes Eira Jones o Ysgol Prion – gwych ynde.

Mi rois fy enw fy hun i lawr yno hefyd!!!

# TRWY'R POST

DINESYDD

Os hoffech dderbyn eich copi personol o'r Dinesydd bob mis am y flwyddyn, yn rhad ac am ddim, llenwch y ffurflen yma a'i hanfon yn ôl i Detheridge Cyf, 93, Cowbridge Road East, Caerdydd CF1 9AF.

ENW ..........................................

CYFEIRIAD ..........................................

COD POST ..........................................

Amgaeaf siec am £4.00 i dalu am bostio deg rhifyn yn unig, yn daladwy i "Detheridge Cyf".

# Y CALENDAR

**MEDI:**

**5:** Noson Agoriadol yng nghwmni Ruth Parry. Merched y Wawr Radur.

**5:** Llên y Eisteddfod – 9 darlith. 7.00-9.00pm. W J Jones, Canolfan Athrawon, Caerffili.

**27:** Lleyddiaeth Gymraeg – 12 darlith 6.30-8.30pm. Tiwtor: Dr Dafydd Johnston. Ysgol Gyfun Brynhafren, Y Barri.

**HYDREF:**

**1:** Mwynhau Llenyddiaeth – 21 darlith 10.00-12.00 y bore. Tiwtor: Rhiannon Williams. Yr Hen Neuadd, Y Bontfaen.

**3:** "Radur Ddoe a Heddiw" y Barnwr Watcyn Powell. Merched y Wawr Radur.

**3:**Nofelau Daniel Owen – 18 darlith 7.00-9.00pm. Tiwtor: Cefn Campbell. Yr Hen Neuadd, Y Bontfaen.

**8:** Gwaith Dic Jones – 9 darlith. 7.00-9.00pm. Capel Tabernacl, Yr Efail Isaf. Cefn Campbell.

**14:** 'Canu Gwerin Cwm Taf a'r Cyffiniau'. Sgwrs gan E Wyn James i Gymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd yn festri capel Bethel, Heol Penllin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30pm nos Wener, 14 Hydref. Cenir enghreifftiau o'r caneuon gwerin gan Eleri Davies a Delwyn Siôn.

**21:** 'Hydref yn y Ddinas'. Sgwrs gan Mr D Llewelyn Walters, Rhiwbeina, i Gylch Llyfryddol Caerdydd yn festri Capel Minny Street am 7.00pm nos Wener, 21 Hydref.

**23:** Nyddu'r Cyngaheddion – 18 darlith. 7.30-9.30pm. Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth. Tiwtor: Rhys Dafis.

# SÊR Y DINESYDD

**Eiry Palfrey**



## MEDI 1990

### ARIES

Bydd rhai o'ch cyfeillion yn benderfynol o gynnig cyngor i chi nawr, ond pa mor synhwyrol a doeth y mae yn ymddangos beth bynnag wnewch chi peidiwch a'i gymryd, gwell o lawer fyddai i chi ddilyn eich cyngor eich hun. Mae hwn yn gyfnod da i ofyn am ddyrchafiad yn y gwaith neu am godiad ariannol.

### TAURUS

Nid dyma'r amser gorau i wneud unrhyw benderfyniad newydd ynglŷn â'ch gwaith oherwydd os gwnewch chi mae na bosibilrwydd cryf y byddwch yn newid eich meddwl eto maes o law. Ond ar y llaw arall mae'n gyfnod ffafriol i faterion cyfreithiol o bob math ac felly'n amser gwych i arwyddo cytundebau ac yn y blaen.

### GEMINI

Rydych yn llawn egni ar hyn o bryd ac yn methu deall pan nad yw pawb arall mor frwdfrydig â chi. Ond mae tuedd ynnoch i fod braidd yn ddiamynedd, felly ceisiwch gadw ffrwyn ar eich tafod, neu fe allech ddifaru ar ôl dweud rhywbeth byrbwyll. Cymrewch ofal wrth yrru, mae damweiniau yn bosib oherwydd eich diffyg amynedd.

### CANCER

Peidiwch da chi â phrynu dim fydd yn gofyn i chi arwyddo ar bapur am wythnos neu ddwy, neu fe allech ddifaru. Serch hynny fe ddylai pethau fynd yn ardderchog yn eich perthynas agos nawr, as os bu unrhyw fanion yn cymlyu'ch hapusrwydd yn ddiweddar dyma'r union amser i drin a thrafod eich problemau a rhoi'r byd yn ei le.

### LEO

Rydych ar drothwy cyfnod ffodus iawn yn eich bywyd pan ddylai pob math o bethau da ddisgyn i'ch côl. Cymerwch fantais ohono a gwneud y gorau o bob cyfle ddaw heibio. Os ydych mewn cyfyng gyngor ynglŷn â pherthynas agos mi fyddai'n ddoethach peidio gwneud unrhyw benderfyniad yn ei gylch am wythnos neu ddwy.

### VIRGO

Dyma un o'r cyfnodau gorau i chi bob blwyddyn, a dyw leni dim yn eithriad. Ond mae posibilrwydd bydd pethau mecanyddol yn torri, a llythyron ac yn y blaen yn mynd ar goll ar ddechrau'r mis. Byddai'n ddoeth gohirio unrhyw benderfyniad pwysig tan y 18fed, ac erbyn hynny bydd pob peth yn gweithio allan yn ardderchog.

### LIBRA

Byddwch yn dechrau'r mis yn teimlo braidd yn isel ond bydd pethau'n gwella o'r 20fed ymlaen, ac erbyn diwedd y mis byddwch yn llawn egni a syniadau newydd am y dyfodol. Peidiwch â gwneud unrhyw benderfyniad parhaol yng nghylch materion y galon na'ch gyrfa tan y 24ain pan fydd yr Haul yn symud i'ch arwydd personol chi.

### SCORPIO

Mae llawer o newidiadau pwysig wedi digwydd yn eich bywyd yn ystod y misoedd a aeth heibio, a mae mwy i ddod! Ond yn ystod Mis Medi eleni newidiadau cadarnhaol ffortunus fyddan nhw. Gwnewch yn fawr ohonynt – mae llwyddiant mawr o'ch blaen. Os am wneud penderfyniad pwysig ynglŷn â'ch dyfodol, mae hwn yn gyfnod ardderchog i wneud hynny.

### SAGITTARIUS

Mi ddylai hwn fod yn fis ardderchog i chi yn ariannol, newyddion da yn enwedig os ydych – fel arfer – wedi gorwario dros yr haf. Mae Sagittarius yn un garw am or-wneud pethau. Mae'n bosib y daw cildwrn bach annisgwyl i chi. Peidiwch â gwneud unrhyw benderfyniad pwysig am eich dyfodol tan ar ôl y 25ain, mi fyddwch yn siŵr o newid eich meddwl.

### CAPRICORN

Mae'n bosib iawn y bydd llawer o rwystredigaethau yn eich poeni yn ystod mis Medi eleni, ond o'r 18fed ymlaen, ac yn sicr erbyn diwedd y mis, mi fydd y darnau i gyd wedi syrthio i'w lle a mi fydd bywyd dipyn yn haws. Peidiwch â gwneud unrhyw benderfyniad ariannol a allai effeithio ar eich bywyd yn y dyfodol am wythnos neu ddwy.

### AQUARIUS

Bydd Medi'n dechrau'n hwyliog iawn i chi a phob peth yn syrthio i'w le, a mi fydd yn diweddu felly hefyd, ond fe all rhai pethau fynd o chwith yn y canol! Peidiwch â gwneud unrhyw benderfyniad pwysig ynglŷn â'ch bywyd personol gan nad yw'r ffeithiau i gyd ddim gyda chi eto. Fe ddaw'r cyfan yn eglur maes o law, mwy na thebyg erbyn diwedd y mis.

### PISCES

Mae'r pwyslais ar eich perthynas gyda'ch cymar y mis hwn, mae'n bosib y byddwch ill dau yn gwneud penderfyniad pwysig ynglŷn â'ch dyfodol nawr, ac osywch calon yn rhydd, mae'n bosib y byddwch yn cyfarfod â rhywun cyffrous a deniadol iawn cyn bo hir! Ac os bu problem yn eich poeni ers tro, fe ddaw'r ateb yn syml a chlir i chi nawr.


## Cae'r Delyn

**Y Feithrinfa yn y Fro, yn Saint Hilari, ger y Bontfaen**

Yn barod i'w plannu nawr:

Llysiau'r Drindod Universal, am flodau drwy'r Gaeaf;

Blodau Mamgu, Myosotis, Polyanthus a Viola, am sioe yn y Gwanwyn;

Planhigion parhaol am bleser blynyddol.

**Ffôn: 0446 772888**

## CLWB RYGBI IEUENCTID CYMRY CAERDYDD

I FECHGYN 8 MLWYDD OED CYN 1AF FAWRTH '91 AC HEB FOD YN 15 CYN YR UN DYDDIAD

YN CWRDD: CAEAU LLANDAF

BORE SADWRN: 11-12 O'R GLOCH

*MANYLION ODDIWRTH:*

*BERNIE SIMPSON*

*FFÔN 563992*

## CYMDEITHAS GOLFF Y DDINAS CYSTADLEUAETH AGORIADOL

- Ble? : Clwb Golff Radur 5ed Hydref 1990
- I bwy? : Croeso i aelodau o glybiau swyddogol sydd yn chwarae i safon o 20 neu lai.
- Sut? : Manylion pellach oddiwrth :

**Dafydd Hampson-Jones Ffôn 394021 neu Ceri Preece – Ffôn 224871**

# Merci Madame Jeffreys!

**"Gwyneth", meddai'r llais blinedig o dan yr het wellt a thu ôl i fwydlen yn un o fistros Paris, "wnewch chi ofyn a oes stecs ar y fwydlen ac a ydyn nhw yn rhai *grand*."**

Yr oedd perchennog y llais wedi bod wrthi drwy'r dydd yn esbonio i griw o ddisgyblion bywiog ac athrawon chwilfrydig (ac unrhyw un arall o fewn clyw a ddeallai Gymraeg Glanaman) gefndir hanesyddol y Louvre, y Bastille, Versailles ac ati. Yr oedd yr hanesydd dysgedig bellach ag angen gwybodaeth ei hun, gwybodaeth a fyddai'n sicrhau atgyfnerthiad corff ac ysbryd.

"Excusez-moi", meddai Gwyneth (yr oedd wedi hen arfer â'r gorchwyl hwn), gan amneidio ar y gweinydd eiddgar. "Vous avez des biftecks sur le menu et est-ce qu'ils sont grands? Mon mari a faim."

Ail-adroddwyd yr olygfa hon, neu un debyg iddi, ddegau o weithiau dros y pum-mlynedd-ar-hugain diwethaf – yn aml yn Ffrainc ond hefyd yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, a thu hwnt: Hywel a Gwyneth Jeffreys yn rhoi cyfle trwy eu teithiau tramor i ddisgyblion Rhydfelen, nifer sylweddol o athrawon a ffrindiau eraill (megis y bythol-ifanc Beti Rhys) i ledu eu gorwelion, ieithyddol a diwylliannol, yn ystod gwyliau'r ysgol; teithiau a drefnwyd yn fanwl eithriadol a byddai unrhyw un na ddarllenodd y nodiau cefndirol cynhwysfawr a baratowyd cyn y daith yn sicr o ennyn gwg yr hanesydd!

Ond nid yr hanesydd a'r Dirprwy Brifathro sy'n bwysig am y tro ond ei gymar, cyn-Bennaeth Ieithoedd Modern, a hyd at ddiwedd y tymor diwethaf, Pennaeth Adran Ganol Ysgol Rhydfelen. Mae Gwyneth Jeffreys wedi ymddeol, yn gynnar, ar ôl saith-mlynedd-ar-hugain o wasanaeth arbennig iawn – gwasanaeth y mae llu o'i chyn-ddisgyblion a'u rhieni yn ei gydnabod gyda diolchgarwch ac edmygedd. Ac yr wyf innau, fel Prifathro'r ysgol am y tair-blynedd-ar-ddeg cyntaf, yn hapus iawn i ymateb i gais y Golygydd am deyrnged i un y cefais y pleser o gydweithio â hi yng nghyfnod y sefydlu ac arloesi ac a flasodd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rai o'r profiadau tramor y bu hi a Hywel yn eu trefnu dros y blynyddoedd.

Yn frodor o Lanaman, cafodd yrfa addysgol ddisglair – Gradd dosbarth cyntaf yn y Ffrangeg ac MA Prifysgol Cymru – cyn dechrau ei gyrfa fel athawes am bedair blynedd yn Ysgol Ramadeg Ystalyfera. 'Roedd Rhydfelen yn flwydd oed pan benodwyd hi i ddysgu Ffrangeg yn yr ysgol. Ac nid Ffrangeg yn unig, os cofiaf yn iawn, ond Lladin ac Ysgrythur hefyd am beth amser: 'roedd yn rhaid i athrawon cynnar Rhydfelen fod yn hyblyg iawn! Yr oedd Nia Daniel (Royles bellach) wedi rhoi cychwyn i'r gwaith o ddysgu Ffrangeg drwy'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mae'n werth nodi mai Rhydfelen oedd yr arloesydd yn y maes yma ac fe wynebodd Gwyneth Jeffreys y sialens hon gyda brwdfrydedd, ond gyda'i chefndir academaidd cyfoethog, ei meistriolaeth o'r Gymraeg, a'i dawn ddiamheuol fel athrawes sut y gallai fethu? Yr oedd problemau lu i'w hwynebu ac mae wedi cofnodi ei phrofiadau mewn pennod ddiddorol tu hwnt yn y gyfrol "RHYDFELEN: Y DENG MLYNEDD CYNTAF" (Gwas Gomer, 1973). Meddyliwch mewn difrif: dim Geiriadur Cymraeg – Ffrangeg a dim gwerslyfr o gwbl! Yr oedd angen paratoi disgyblion am yr arholiadau allanol am y tro cyntaf erioed lle bo'r cyfieithu o'r *Gymraeg* i'r Ffrangeg a hyn yn gofyn am ddarnau yn y Gymraeg oedd yn cynnwys y cystrawennau yr oedd yr arholwyr yn disgwyl i'r ymgeiswyr eu gwybod. Gafaelodd Gwyneth Jeffreys yn y tasgau hyn yn y sicrwydd o werth addysgol, seicolegol ac ieithegol defnyddio'r Gymraeg yn gyfrwng dysgu ei phwnc.

Gall cyn-ddisgyblion Gwyneth Jeffreys dystio i'w dawn fel athrawes. "Yr oeddem yn teimlo'n saff dan ei gofal" meddai un cyn-ddisgybl: pa well tysteb i athwawes? Pan ddaeth un Arolygwr Ei Mawrhydi i'r ysgol (un sydd bellach wedi ymddeol), cofiaf iddo ddweud iddo gael y fraint o fod yn bresennol yn y wers Ffrangeg orau a glywodd erioed. Bu canlyniadau arholiad disgyblion Gwyneth Jeffreys dros y blynyddoedd yn dystiolaeth huawdl i'w gallu i gael y gorau ohonynt. Ni fu athrawes mwy trwyadl o flaen dosbarth unrhyw ysgol. Torrodd dir newydd sbon gan fod yn barod bob amser i arbrofi gyda gwahanol ddulliau o ddysgu. Yr unig un na lwyddodd i ddysgu Ffrangeg iddo fu Hywel ond dyna fe, pam bod angen dysgu iaith arall a chyfieithydd ffyddlon wrth ei ochr yn wastadol!

Meilleurs voeux pour l'avenir Gwyneth et profitez-vous bien de votre repos: vous le meritez!

**Gwilym E Humphreys**




**BUSH INN**

**SAINT HILARI**

**0446-772745**

Mwynhewch y gorau o goginio Cymreig traddodiadol a chyfoes yn un o bentrefi tlysaf Bro Morgannwg mewn tafarn to gwellt sy'n llawn cymeriad ac yn dyddio o oes y Tuduriaid

Ar agor saith niwrnod o'r wythnos drwy'r dydd rhwng 11 y bore ac 11 yr hwyr

Bwydlen a-la-carte eang ar gael amser cinio a chyda'r nos

Prif gyrsiau rhwng £5.60 ac £11.80

Cinio dydd Sul £7.40 i oedolion £4.90 blant – Barbrydau o £2.90

*Yr unig le yn y de-ddwyrain i gael Croeso Cymraeg*



O'R PRIDD

ENVIRONMENTAL CONTRACTOR

GWEITHIAU YN YR AMGYLCHEDD

**Andrew E. Dixey**

10 Gellidawel, Rhydfelen, Pontypridd

Morgannwg Ganol, CF37 5PR

☎ 0443 402091

Gwaith tir a choed, Bach neu mawr yn cynnwys: Ffensio, walio, plannu, tocio a thorri.

THE GUILD OF MASTER CRAFTSMEN

CORPORATE MEMBER

# SAFBWYNT

**Beth yw'r cysylltiad rhwng Jim Henson a R Alun Evans? Wel, rhyw edefyn brau, trywydd meddwl, dyna i gyd. Newydd fod yn darllen erthygl y bore 'ma am y pypedwr dawnus a greodd y Muppets, fu farw mor annisgwyl yn y gwanwyn eleni, a newydd fod yn gwrando'r darlledwr y p'nawn 'ma yn y 'Steddfod yn traethu'n ddifyr a diddorol ar 'sgrifennu ar gyfer y radio. A hyn oedd y llinyn cyswllt.**

Soniodd Alun Evans am ddylanwad dinistriol y teledu, fel cyfrwng gwibiog, ar allu plant (a'n gallu ni i gyd, o ran hynny) i eistedd a gwrando ar gyfrwng i'r glust yn unig. Ond defnyddiodd Jim Henson a'i gymeriadau annwyl, megis Big Bird, Ernie a bert a'r Cookie Monster, bosibiliadau y cyfrwng gwibiog hwn i'r eithaf i grey sioe deledu addysgiadol ddifyr. Roedd yn 'sioe i blant o bob oed', yn ddiddanwch pur ac yn addysg rwydd.

O'm rhan fy hunan, rwy'n cytuno ag Alun Evans – ac yn gresynu na fyddai Radio Cymru yn gwneud rhyw ymdrech i gynnal cydbwysedd â'r teledu, trwy ddarparu rhyw chwarter awr fach amser cinio neu ganol bore ar gyfer stori. Wedi'r cwbwl, waeth heb a chwyno nad yw plant yn gallu gwrando os nad oes dim byd yno i wrando arno. Ac am fy mod hefyd yn dod yn fwy a mwy ymwybodol o'r gafael mawr sydd gan deledu ar fywyd plentyn, rwy'n ceisio rheoli faint mae fy mhlentyn fy hun yn cael ei wylio. Rwy'n gwybod yn iawn y gwnaiff e eistedd yno am awr neu ddwy yn sugno'r cyfan i mewn, petai'n cael hanner cyfle.

Gallech gredu fod Sesame Street, gyda'i olygfeydd pytiog, yr animeiddio tameidiog, y canu a'r sgetshys, yn enghraifft o deledu sy'n annog hanner-gwrando. Ond i'r gwrthwyneb. Mae'n cynnal diddordeb plentyn, yn ei gynnwys – a 'dyw e ddim yn nawddoglyd.

Ac rwy'n berffaith hapus i 'mhlentyn eistedd yno am awr yn gwylio Sesame Street (er nad oes ganddo fawr o Saesneg), am ei bod hi'n rhaglen grefftus, ddiddorol, amrywiol. Mae cynhyrchwyr y rhaglen yma wedi ei deall hi, o safbwynt cael cydbwysedd perffaith rhwng difyrrwch ac addysg. A dyna, rwy'n teimlo, sydd ar goll yn y rhaglenni Cymraeg i blant. Mae'r ddarpariaeth gyfan yn rhy unochrog o lawer.

Cymharwch hyn. Awr gyfan o Sesame Street, sydd yn gymysgedd o bypedwaith, animeiddio, canu, deialog, ffilm – a hynny ar ben bore sydd wedi cynnwys rhaglen arall ardderchog fel Playbus, sy'n amrywio'i delwedd bob dydd. Ond yn Gymraeg, rhyw gwta chwarter awr bob dydd i'r plant bach, a dim byd o gwbwl wedyn. Y mae Lluniau Dydd Llun yn ail-ddarllediadau. Ac – er y rhinweddau sydd yn Tŷ Chwith, Chwyrligwgan a Briwison – ni all neb wadu nad yw nhw i gyd yn raglenni prysur, swnllyd, gyda dogn go helaeth o effeithiau sŵn neu oleuadau'n fflachio. Prin yw'r eiliadau tawel. Prin yw'r cymeriadau sy'n siarad mewn llais 'normal' – mae pob cymeriad, bron, yn defnyddio llaais perfformio. Mae bod yn fywiog, yn zany, yn ffantawibiwibiwobawobawobl (chwedl Crinc yn y Tŷ Chwith) wedi mynd dros y top.

'Does gen i ddim byd yn erbyn y rhaglenni hyn, fel *rhan* o ddarpariaeth i blant bach. Ond dyma *yw'r* ddarpariaeth, a dim mwy. A 'does dim byd i blant hŷn.

Eisiau rhagor o raglenni ydw i. Rhaglenni call. Rhaglenni fel 'Take Hart' sy' wedi bod o gwmpas ers oes pys, ac sy'n llawn o syniadau gwych am gelf i blant, gan blant. Rhaglenni bywyd gwyllt wedi eu gwneud yma yng Nghymru, nid wedi eu prynu i mewn, sy'n cynnwys pethe ymarferol y gall plant i wneud i warchod bywyd gwyllt. Rhaglenni fel Newsround a Blue Peter – i enwi dau hen ffefryn – sy'n trin plant fel pobl, ac sy'n ceisio ennyn chwilfrydedd plant am y byd o'u cwmpas. Ac, yn fwy na hynny, sy'n eu hannog i wneud pethau i *newid* y byd o'u cwmpas, trwy gasglu ar gyfer apêls fydd yn cael rhyw effaith ar eu cyd-ddyn yn y Trydydd Bydd. Ac, wrth gwrs, rhyw Playbus Cymraeg i'r rhai lleia'.

Ond, yng nghyd-destyn rhaglenni Cymraeg, rwy'n cael y teimlad fod 'call' yn gyfystyr â 'boring'. Bod addysgu a difyrru yn ddau beth ar wahan.

Y mae plant o bob oed fel sbynjys – mae hynny'n ystrydeb. Mae'n dilyn, felly, fod 'na rywfaint o addysg iddyn nhw mewn unrhyw raglen welan nhw. Ond os felly, cymaint yn fwy yw cyfrifoldeb y cyfrwng gwibiog hwn i sicrhau fod plant yn cael y gorau posibl. Efallai ei bod hi'n rhaid derbyn, bellach, y bydd hoffter plant o weld llun yn drech na'u hawydd i wrando llais – ond siawns nad oes modd sicrhau bod y cyfuniad o lais a llun ar y sgrin fach o'r safon uchaf posibl? Gobeithio'n fawr iawn y bydd y rhaglenni plant newydd sydd i'w dangos amser te o fis Medi ymlaen yn amrywiaeth loyw o syniadau creadigol, wedi eu cyflwyno'n ddeheuig fel bod y plant yn cael difyrrwch ac addysg, wrth wylio a gwrando. Dyna maen nhw'n ei haeddu, dim llai.

**CG**

# *Noson Gerddorol*

**Ar nos Sadwrn braf ym mis Mai agorodd Huw a Sian Thomas ddrws ei cartre – Ffynnon Wen, Heol Pantmawr, Rhiwbeina i nifer o gyfeillion a charedigion Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni.**

Hyfryd oedd cael sgwrsio â hwn a'r llall a chlywed gan gyfeillion Cwm Rhymni am y brwdfrydedd a'r gweithgarwch yn y cwm wrth iddynt baratoi i groesawu yr Ŵyl Genedlaethol ym mis Awst.

Ond yn sydyn daeth taw ar y clebran! A pha ffordd well i sicrhau hynny na chael ffanffêr o ben y grisiau! Dau o ddisgyblion Glantaf oedd y trwmpedwyr – Daniel, mab Huw a Siân, ac Aled mab Iolo ac Eiryl Walters.

Fe'n harweiniwyd i ystafell helaeth gyda llwyfan bach ar un pen iddi ac arno 'grand piano' hardd. Wedi gair o groeso gwresog i'r 'Ystafell Gerdd' gan wraig y tŷ, fe'n cyflwynwyd i Miriam Bowen, y soprano. Bu'n amlwg ar lwyfannau Cymru ond erbyn hyn, oherwydd galwadau teuluol, mae hi'n canolbwyntio ar hyfforddi cantorion yng Ngholeg Cerdd a Drama, Caerdydd.

Cawsom awr o bleser pur yn gwrando ar raglen amrywiol, fywiog a'r gynulleidfa yn ymateb yn frwd, nid yn unig i'r llais melodaidd ond i'r bersonoliaeth naturiol, di-lol, lawn hwmor. Da oedd cael cyfle i werthfawrogi dawn un o gyfeilyddion mwyaf medrus Cymru, Brian Davies – un y byddwn yn ei weld bob blwyddyn ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn cyfeilio'r darnau anodd i'r prif unawdwyr. Rhoddodd yntau ddatganiad meistrolgar ar y piano.

Wedi mwynhau pob munud o'r gyngerdd, troi wedyn at fyrddau llawn o swper blasus.

**Do, bu'n noson a roddodd foddhad i'r corff a'r ysbryd ac yn gyfrwng chwyddo cynnwys coffrau Eisteddfod Cwm Rhymni. Mawr ddiolch, Huw a Siân, am y croeso twymgalon a'r trefnu gofalus.**

## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Nia Hall Wiliams ar gael cyhoeddi ei stori fer yn y gyfrol "Wyth o Storiau", sef cynnyrch cystadleuaeth Gwobr Goffa Kate Roberts. Yn ogystal bu'n llwyddiannus yng Nghystadleuaeth ysgrifennu erthygl yng Nghwm Rhymni. Ymfalchiwn yn ei llwyddiant ac mae'n bleser cyhoeddi'r erthygl yn y rhifyn hwn. Edrychwn ymlaen at ddarllen mwy o ffrwyth ei llafur.

# ACEN

Bydd ACEN yn lansio cyfres newydd sbon o'r enw *Now You're Talking* ar S4C ddechrau Hydref i bobl sydd am ddechrau dysgu'r Gymraeg. Gan ein bod yn gwybod na fydd llawer o'r gwylwyr, am wahanol resymau, mewn sefyllfa i fynychu dosbarthiadau ffurfiol, rydym yn awyddus i drefnu grwpiau anffurfiol a fydd yn rhoi cyfle i rai ohonynt ddod at ei gilydd o bryd i'w gilydd. Bydd CYD Yn cydweithio â ni yn hyn o beth.

Pwrpas y llythyr hwn yw gofyn a fyddai rhai o'ch darllenwyr â diddordeb mewn cynorthwyo yn y grwpiau.

Pwysleisiwn na fydd disgwyl i'r gwirfoddolwyr wneud unrhyw waith dysgu ffurfiol – dim ond cynnal brwdfrydedd a sicrhau cynanu cywir.

Byddwn y ddiolchgar iawn pe bai modd i unrhyw un sydd yn fodlon ystyried helpu grŵp lleol gysylltu â ni trwy ysgrifennu at **Acen, Blwch Post 4000, Caerdydd CF5 2XT** neu ffonio Caerdydd (0222) 786522.

**DYDDIAD COPI**
**RHIFYN HYDREF**
**14 – 09 – 90**

# Deddf Iaith Newydd

"Trysor yw'r iaith Gymraeg ac amcan Deddf yr Iaith newydd fydd rhoi i'r Gymuned Gymraeg yr hawl i fynegi ei hun a byw bywyd llawn trwy gyfrwng y Gymraeg." Dyna eiriau'r Arglwydd Prys Davies wrth annerch cangen Caerdydd Cymdeithas Cynfyfyrwyr Coleg Aberystwyth yn Ysgol Howells, Llandaf ar 6 Gorffennaf.

Aeth yn ei flaen i amau a ydyw'r drafft a gynigiwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn cyrraedd y nod. "Eu bwriad yw sicrhau fod awdurdodau cyhoeddus yn defnyddio'r Gymraeg lle mae hyn yn rhesymol ac yn ymarferol". Pwy, gofynnodd, fyddai'n penderfynu beth oedd yn rhesymol ac yn ymarferol.

Croesawodd yr Arglwydd Prys Davies y bwriad i greu Bwrdd Statudol ond gofynnodd pa rym fyddai gan y Bwrdd os nad oedd ganddo hawl i bennu beth fydd yn rhesymol a be sy ddim? "Rhaid i Fwrdd feddu ar rym," meddai.

Rhaid hefyd sicrhau bod modd apelio yn erbyn dyfarniad y Bwrdd, meddai, ac awgymodd y gallai ombudsman neu lys benderfynu pa mor resymol ydyw cais i ddefnyddio'r iaith a pha mor ymarferol y mae i awdurdod ymateb i'r cais unigol. Ni ddylai'r Bwrdd osod y canllawiau na barnu a ydynt yn cael eu gweithredu'n deg.

Mae angen cryfhau, ychwanegodd, nid yn unig pwerau a statws y Bwrdd ond ei annibyniaeth. Pa mor annibynnol, gofynnodd fyddai aelodau'r Bwrdd wedi iddynt gael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol fyddai â'r hawl i osod terfynau ar eu gweithgarwch?

Ond, yn ôl yr Arglwydd Prys Davies, anodd fyddai deddfu yn ieithyddol ar gyfundebau masnachol rhwng unigolion yn y sector preifat. Byddai'r Bwrdd yn gorfod dibynnu ar ddarbwyllo cwmniau masnachol i barchu'r iaith nid eu gorfodi.

Nid oedd y gynulleidfa niferus a ddaeth i'w glywed yn fodlon derbyn y gall a sector preifat osgoi cyfrifoldeb deddfwriaethol am ddefnyddio'r iaith. Os derbynnir yr egwyddor dilysrwydd cyfartal rhaid ei gweithredu ymhob sector meddai un. Ymateb arall oedd y byddai peidio â gosod gorfodaeth ar y sector preifat yn sicrhau parhad statws israddol i'r Gymraeg, yn yr union fannau lle mae angen ei chryfhau. Ni fyddai Deddf oedd yn caniatau hyn yn cyrraedd ei hamcanion.

Tasg Bwrdd yr Iaith yn ystod yr wythnosau nesaf fydd ail-lunio'r mesur i gymryd llawn ystyriaeth o'r sylwadau a wnaed. Eisoes yn ôl yr Athro Derec Llwyd Morgan (wedi cyfarfod cyhoeddus llwyddiannus yn Eisteddfod Cwm Rhymni), sicrhawyd unoliaeth ar yr angen am Ddeddf Iaith Newydd. Dyma gyfle'r Bwrdd i lunio mesur a fydd yn denu cefnogaeth eang er mwy sicrhau urddas a pharch dyladwy i'r iaith.

**RHW**

# DINAS – LLYFR AR Y GYFRES

**Mae 'Dinas', yr unig gyfres sebon ddi-dor yn Gymraeg, wedi bod yn rhedeg ers Medi 1985. Fe adlewyrcha sut mae Cymru a'i phrifddinas yn arbennig yn newid o achos Thatcheriaeth. Aelodau o fyd busnes a phobl broffesiynol dinas Caerdydd oedd cymeriadau cynta'r gyfres, ond yn ddiweddarach ymunodd cymeriadau o'r dosbarth gweithiol, megis teulu'r Doyles o ardal y dociau, â 'Dinas'.**

Try'r digwyddiadau o gylch Caerdydd ac ardal y dociau ac mae'n dangos llawer o'r hyn sy'n digwydd gyda datblygiad Bae Caerdydd mewn gwirionedd.

Ysgrifennydd y llyfr 60 tudalen gan y newyddiadurwr, Hefin Wyn, sy'n olrhain hanes y gyfres o'r dechrau ac yn ei chymharu â'i thebyg yn Saesneg fel mae rhai'n ei ddadlau, 'Dallas' a 'Dynasty'.

Ceir ynddo bortreadau o'r prif gymeriadau – y bobl busnes, yr iypis Cymraeg, y Doyles ac eraill. Mae'n cynnwys 70 o luniau o'r gyfres a ffilmir yng Nghaerdydd ei hun.

Dangosir 'Dinas' ar hyn o bryd ar nos Fawrth a nos Iau am 8 o'r gloch ar S4C, ond bydd yr amser yn newid i nos Lun a nos Wener am 7 o'r gloch o Fedi 17 ymlaen.

Dywedodd Graham Jones, cynhyrchydd y gyfres ar adeg lansio'r llyfr yng ngwesty mwyaf newydd ardal y dociau



*Tracy Doyle (Anwen Carlisle) a rhai o'i ffrindiau yn paratoi ar gyfer y Docolympics.*

yn addas iawn, y Celtic Bay: "Mae 'Dinas' wedi bod yn destun sgwrs trwy Gymru dros y chwe mlynedd diwethaf. Peth naturiol felly oedd inni ymateb i geisiadau i gyhoeddi llyfr ar y gyfres.

"Dyma'r gyfres ddrama gyntaf i'w darlledu trwy gydol y flwyddyn, ac y llynedd tyfodd ei phoblogrwydd i'r fath raddau nes y penderfynwyd ei dangos ddwywaith yr wythnos.

"'Dinas' oedd y gyfres gyntaf i'w lleoli yn y ddinas. Yr oedd dilyn hynt a helynt pobl mewn dinas yn beth newydd i wylwyr teledu Cymraeg, ac yn peri bod rhai'n gofyn 'Pwy yw'r bobl hyn?'

"Ein gobaith yw bod llyfr Hefin Wyn yn ateb yr amheuwyr hyn. Gwlad dlawd fyddai Cymru heb Gaerdydd ac yn dlotach fyth heb ei phobl," meddai Graham Jones.

Bydd y llyfr, pris £3.25, ar werth ar stondin HTV yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghwm Rhymni ac mewn siopau llyfrau.

Fe'i cyhoeddir gan Hughes a'i Fab gyda chefnogaeth HTV Cymru a'r Cyngor Llyfrau Cymraeg.

# DYDDIADUR Y GWEINIDOG

## DYDD MERCHER, 6 MEHEFIN . . .

Galw yn nhŷ fy rhieni i fenthyg ymbarel du fy nhad cyn teithio i'r angladd gyntaf mewn capel gorffwys yn Aberaman. Bydde fy ymbarel fawr coch a gwyn ddim yn gweddu rhywsut i alwadau'r achlysuron! Dyma'r tro cyntaf i mi gymryd dau angladd mewn diwrnod. Er doeddwn i ddim yn adnabod un o'r ddau sef Evan Reginald Jones, Cwmaman a Catherine (Katie) Jane Williams, Ynysybwl. Y tro cyntaf hefyd i mi brofi eitha' gwlychiad mewn mynwent! Damwain ffordd ar yr A470 rhwng allanfa Caerffili a Rhydfelen – y traffig braidd yn symud am ddeg munud. Un ffodus roeddwn wedi gadael y tŷ mewn digon o bryd a chyrraedd Amlosgfa Glyntaf pum munud cyn amser cychwyn yr oedfa.

Am 7.30 Eirian a fi yn ymuno gyda chantorion a chyfeillion Côr Cambrensis ar gyfer noswaith gymdeithasol yn eglwys Calvary, Canton. Bwffe blasus wedi cyrraedd, sleidiau i'w gweld o 'Fawl Dewi Sant', (nos Wener, 18 Mai), rhai eitemau amrywiol gan aelodau'r Côr a chyfle i fwynhau sgwrs gyda hwn a'r llall. Sgwrs fach gyda Kelvin Thomas, arweinydd Cambrensis yn Gymraeg am y tro cyntaf rwy'n credu. Bu Kelvin yn dysgu'r iaith ers 1988.

## DYDD SUL, 17 MEHEFIN . . .

Cymanfa Ganu Seion, Cwmaman, Noddfa, Ynysybwl ac Eglwys Hengoed/ Bryn Seion, Ystrad Mynach yn Seion am 6. Hywel Davies, Caerdydd, (gynt o Gwmaman a Hirwaun) yn arwain y mawl a Martin Thomas, Seion, wrth yr organ. Eitemau amrywiol oddi wrth ddisgyblion (ac athrawon) y 3 Ysgol Sul, yn derbyn cymeradwyaeth gan bawb yn y gynulleidfa. Canwyd 8 emyn – 3 yn emynau oedolion a'r gweddill i'r plant – 3 yn emynau C & S gan gynnwys 'Y Neges' gan Sian Thomas, (un a fagwyd yn Seion). Wedi'r oedfa fe gawsom gyfle i adnewyddu cymdeithas yn y festri a chwiorydd Seion wedi darparu bwyd a diod i bawb a ddaeth o bell ac agos. Gyda llaw, doedd dim amser gen i helpu gyda golchi'r llestri – yn 1993 efallai!

## DYDD MERCHER, 4 GORFFENNAF . . .

'O! Mor hoff yw cwmni'r brodyr', medde Emrys. Ysgol Haf Gweinidogion Bedyddwyr Cymru yn Neuadd Non, Coleg y Drindod, Caerfyrddin. 'Parhad Etifeddiaeth Cymru' – dyna oedd thema darlith Alwyn Daniels, Dinas, Trefdraeth, am 10 o'r gloch. Dilynwyd hi gan goffi a thrafodaeth fywiog. Y prynhawn yn rhydd, glaw mân tu allan, felly penderfynu aros yn fy ystafell i orffen pregeth ar Sant Swithun ar gyfer 15 Gorffennaf. Am 5.30 y ddefod flynyddol o dynnu lluniau – William Harry, Eglwyswrw, yn tynnu'r llun swyddogol! Nifer ohonom yn yr ystafell deledu i wylio cychwyn y gem bêl-droed rhwng Lloegr a Gorllewin yr Almaen, (Cwpan y Byd) cyn ein bod yn ymneilltuo i ystafell arall yng nghwmni'r darlithydd gwadd, Dr Meredydd Evans, i'w glywed yn ein tywys i werthfawrogi'n rhagorach rai o gerddi'r bardd T H Parry-Williams. Yr epilog hwyrol yng nghofal David Jones, Greenfield, Llanelli. Fy nghyfle i chwarae'r organ fach electrig – y dôn 'Mason' – 'Drugarog Arglwydd da . . .'

## DYDD IAU, 5 GORFFENNAF . . .

Codi cyn wyth a brecwasta cyn bod tyrfa niferus o'r Ffrancod ifanc yn cyrraedd yr ystafell fwyta eang i giwio am eu bacwn ac wy. Oedfa'r bore am 9.15 a Marc Brain, Garnswllt, yn ein harwain. Yna'r ddarlith olaf yng ngofal Byron Evans, Eglwys Heol-y-Castell, Llundain, yn sôn am 'Fyd Gwyrdd Duw'. Coffi, trafodaeth a chyfarfod gweddi byr yn dwyn gwaith yr Ysgol i ben am flwyddyn arall. Cinio cynnar am 11.45. Wrth ymadael, dynion mewn du a gwyn yn dechrau cyrraedd – cinio mawr Seiri Rhyddion Dyfed. Cael cwmni am ran o'r ffordd adref – rhoi lifft i Vincent Watkins, Treforys. Yn ystod y prynhawn, galw yn nhŷ fy rhieni a Dad fel y byddech yn disgwyl yn fy holi am ddigwyddiadau'r Ysgol Haf. Nôl i 'Hengoed' cyn bod Eirian yn cyrraedd adref o'r ysgol ar ddiwrnod ei phenblwydd. Yn ddiweddarach, mas am bryd o fwyd yn y Zio Pin, Treganna.

## DYDD IAU, 12 GORFFENNAF . . .

Rheswm arall i alw yn St John's Crescent wedi prynu carden a blodau. Fy rhieni yn dathlu 38 blynedd o fywyd priodasol. Rwy'n gobeithio bod John Williams, Bargod sef ysgrifennydd Moreia, Rhymni, (A) wedi derbyn fy llythyr diweddar yn canslo Sul yno ar 12 Gorffennaf, 1992. Bydd rhaid rhoi'r flaenoriaeth i briodas ruddem os byw ac iach. Wedi cinio lan i 'Irfon', Trecynon i longyfarch Idwal Rees gan fod yna wisg wen yn ei aros yn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni. Galw yng Nghartref y Beeches, Aberdâr, i weld Phil John. Ond dim golwg o'r deiliaid – pawb wedi mynd am drip i'r Parc Gwledig yng Nghwmdâr. Sgwrs ddiddorol wedyn gyda Jane Ellen Vaughan, Aberaman, ynglŷn â'r ffordd y dyle aelodau a gweinidogion weithredu pan fo hi'n achlysur priodas neu angladd. Yna i bentref Cwmaman, Glanaman Road, Louie Rees a'i mab. Norman bellach adref wedi rhai dyddiau yn yr ysbyty. Gyda'r nos, am dro o amgylch llyn Parc-y-Rhath a galw yn Glenroy Street i weld sut gyflwr sydd i dŷ fy chwaer Megan, (ac Andrew) erbyn hyn. (Byddant nôl o Sambia ar 1 Awst.) Galwad ffôn oddi wrth Anne Arnold, ysgrifenyddes Noddfa, Ynysybŵl. Neges i Eirian – Parch H R Davies, Caerdydd, ddim mewn ffordd i wasanaethu ar y Sul, 22 Gorffennaf. Tybed a fydde Eirian yn fodlon cymryd y gwasanaeth Cymraeg yn ei le yn y prynhawn. Roedd Eirian yn ymlacio'n braf yn y bath, hynny yw, cyn iddi glywed am y gwahoddiad i estyn cymorth lan yr A470!

**Parch Gwilym Davies**

# PENARTH A'R CYLCH

Dymunwn yn dda i Elis Griffith a fu'n bur wael yn ddiweddar. Ar hyn o bryd mae'n aros am lawdriniaeth ac yn cael gofal o'r radd flaenaf gan Hafel ei wraig, y teulu a ffrindiau. Cofion hefyd at Cliff Protheroe sy'n gwella'n ara deg ar ôl gwaeledd. Mae Vi ei wraig yn gefn iddo ac yn gofalu'n dyner amdano. Distaw a digynnwrf yw bywyd y dyddiau hyn – cwbl wahanol i'r hyn a fu pan oedd Cliff ynghanol holl ferw a phrysurdeb yr Undebau Llafur. Dymuniadau Da i Iwan ac Avril Davies – bu Avril yn bur wael yn ddiweddar ac mae Iwan yn aros am lawdriniaeth i'w lygad. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys at Iris Cobbe, Gerald a Matthew. Fe gollodd Iris ei thad yn ddiweddar a hyn ar ôl misoedd o alar ar ôl colli eraill o'i theulu. Gobeithiwn fod y wawr ar dorri ar ôl eich gofidion.

### CROESO

Croeso 'nôl i Gymru i Gareth, mab Merfyn a Marion Jones, gynt o'r Lôn Werdd, Sain Ffagan (Newbury erbyn hun).

Gareth yn gyn-ddisgybl yn Ysgolion Bryntaf a Llanhari.

Bu yn aelod o heddlu'r Metropolitan yn Llundain am bedair blynedd cyn cael ei dderbyn i weithio gyda'r heddlu yn Bermuda.

Ar ôl dwy flynedd o weithio ar yr Ynys Brydferth yma, mae o yn ôl erbyn hyn yng Nghymru fel aelod o Heddlu De Cymru ac yn gweithio yn ardal y Barri.

Mae Dylan, ei frawd, sydd yn ddeintydd, hefyd yn gweithio yn y Barri.

# NODAU O'R BRIFWYL

**Roedd cyngerdd Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru yn Eisteddfod Cwm Rhymni yn dwyn i ben gyfnod yn ei hanes. Dyma'r tro olaf i Arthur Davison sefyll ar lwyfan y Genedlaethol fel arweinydd y gerddorfa sydd wedi rhoi cymaint o bleser i'r offerynwyr ifanc ac i'r gynulleidfa eisteddfodol.**

Wedi pum mlynedd ar hugain daeth hi'n bryd dweud FINE ar berthynas arbennig rhwng hyfforddwr cerddorfaol a chenedlaethau o offerynwyr ar eu prifiant.

Mewn seremoni fer a phwrpasol cyflwynwyd i i'r arweinydd sgrôl addurnedig i nodi ei gyfraniad at safonau cerddorol ieuenctid Cymru. Talwyd teyrnged briodol gan Lywydd Llys yr Eisteddfod, Dr Derec Llwyd Morgan a chafodd ei eiriau eu hategu gan guriad dwylo'r dorf a churiad traed y 140 offerynwyr ar y llwyfan.

Os ymddangos am y waith olaf a wnâi Arthur Davison, cael ei chlywed am y tro cyntaf fel cantores oedd Rachel Ann Morgan. Bellach mae Ann wedi ymgartrefu yn Amsterdam gan ddilyn gyrfa lwyddiannus ar lwyfannau a stiwdios recordio ar dir mawr Ewrop.

Aeth draw i Amsterdam i ddilyn a datblygu ei gyrfa fel telynores ond darganfu fod ganddi lais. Er iddi newid cyfeiriad cerddorol mae hi'n dal i gadw'i gafael ar y delyn petae ond i gadw cwmni gyda'i dwy chwaer Judith a Siân.

Ond fel cantores operatig yr ymddangosai ar lwyfan prifwyl eleni gan ddal ei thir yn ddiamheuol gyda chantorion profiadol fel Suzanne Murphy, Dennis O'Neil a Gwynne Howell.

Yn Stabat Mater Rossini roedd ei chyfraniad yn gytbwys a chlir ac roedd datganiadau'r pedwar ar yr un lefel uchel o broffesiynoldeb.

Tro cyntaf oedd hi hefyd i Grant Llewelyn fel arweinydd Cerddorfa Symffoni Gymreig y BBC a Chôr yr Eisteddfod. Bu, unwaith, yn rhan annatod o adran sielo'r Gerddorfa Ieuenctid ac, erbyn hyn, mae'n prysur ddringo ysgol galed yr arweinyddion cerddorfaol.

Mae'r brodor hwn o Ddinbych-y-Pysgod ar fin cymryd swydd fel arweinydd cynorthwyol i Seiji Ozawa gyda Cherddorfa Symffoni Boston. Synnwn i ddim na chlywn ni fwy andano pan gaiff gyfle i aeddfedu yn ei ddawn yng nghwmni cerddorfa broffesiynol nid anadnabyddus i ni sy'n mynychu Neuadd Dewi Sant ac yn gwrando ar y radio.

Erbyn hyn fe droes Pasiant y Plant yn Sioe Gerdd a hyd yn oed yn 'musical'. Roedd ymdrech nos Lun plant y cwm yn gwbl ysgubol. Roedd eu cyflwyniad yn soffistigedig, yn fiwsig, yn actio ac yn goreograffi.

Roedd y thema cadwraeth yn weledigaeth heb fod yn rhy bregethwrol ac roedd hwyl y plant wrth gyflwyno'r cyfan yn wirioneddol iasol. Ond y tu cefn i'r cyfan roedd ymdrech yr athrawon dan arweiniad ysbrydoledig Gwawr (WR) Davies. O hyn ymlaen rhaid datblygu ar y math hwn o gyflwyniad sy'n cydio mewn technegau llwyfan cyfoes, ffilm, teledu a radio sy'n rhan mor naturiol ym mywyd y plant a ymgollai mor orfoleddus yn sioe gerdd eleni. Llwyddiant arall oedd Côr yr Eisteddfod dan arweiniad Wil Morris Jones. Gosodwyd sawl her ger ei fron a chododd y cantorion i'r sialens – yng ngwaith comisiwn newydd a llwyddiannus Alun Hoddinott, yn y frwydr i gyrraedd copa Symffoni Gorawl Beethoven ac yn Stabat Mater Rossini.

Mae nifer o ddarllenwyr Y Dinesydd a lafuriodd at chwys a dagrau i sicrhau llwyddiant yr Ŵyl yn rhy niferus i'w henwi. Ond o gofio am gefnogaeth ariannol hael Cwm Rhymni tuag at Eisteddfod Caerdydd, roedd cyfraniad dinasyddion Caerdydd i gyllid Cwm Rhymni, ar wahân i ddau gyfraniad sylweddol, yn gywilyddus o wan. Ond er gwaetha hyn, roedd mesur llwyddiant brodorion Bro'r Eisteddfod yn gofiadwy.

**WL**

# CYMRY'R EGLWYS NEWYDD

**Peth braf a chyffrous yw byw mewn rhan o'r wlad y mae'r Gymraeg ar gynnydd. Fel y dangosodd John M Rowlands mewn erthygl yn y cylchgrawn *Barn* yn ddiweddar (rhifyn Gorffennaf/Awst), mae rhannau o Gaerdydd bellach â thua 10% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg. Ac y mae twf mawr addysg Gymraeg yn y ddinas a'r diddordeb cynyddol ymhlith oedolion mewn dysgu'r iaith yn argoeli fod pethau gwell i ddyfod.**

Mae ambell stryd yma ac acw eisoes yn ymdebygu i 'fro Gymraeg' fechan, a'r sialens fawr nesaf sy'n wynebu Cymry'r ddinas yn ddiau yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymdeithas o'u cwmpas. Rhaid i'r Gymraeg beidio ag aros yn iaith yr ysgol a'r aelwyd a'r dosbarth nos yn unig.

Cam allweddol yn y broses o gymreigio ein cymunedau lleol, wrth reswm, yw tynnu'r siaradwyr Cymraeg mewn ardal at ei gilydd – eu dwyn i adnabod ei gilydd a hybu'r ymdeimlad o gymuned yn eu plith. Byddai'n braf, er enghraifft, weld yn *Y Dinesydd* golofnau newyddion ar gyfer gwahanol ardaloedd Caerdydd dan ofal gohebyddion lleol, yn debyg i'r colofnau a geir ar gyfer gwahanol bentrefi mewn papurau bro gwledig.

Bu peth sôn yn ddiweddar am sefydlu cymdeithasau Cymraeg ar gyfer rhai o ardaloedd y ddinas, a byddai'n hyfryd gweld rhwydwaith o gymdeithasau o'r fath yn datblygu ar draws y ddinas. Byddent yn fodd i dynnu Cymry ardal at ei gilydd, a gallent weithredu'n ogystal fel grwpiau pwyso dros Gymreigio'r gwahanol ardaloedd (trwy annog siopau lleol i arddangos arwyddion Cymraeg, er enghraifft).

Yn wahanol i ardaloedd eraill Caerdydd, mae cymdeithas Gymraeg eisoes ar gael yn yr Eglwys Newydd, a hynny ers blynyddoedd lawer. Yn wir, yn 1992, bydd 'Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd' yn dathlu hannercanmlwyddiant ei sefydlu yng nghanol y rhyfel byd diwethaf.

Cynhelir rhaglen o gyfarfodydd misol amrywiol gan y gymdeithas rhwng mis Hydref a mis Mawrth bob blwyddyn. Dros y gaeaf diwethaf, cafwyd sgyrsiau ar dribannau Morgannwg gan Mrs Eleri Rogers ac ar y grefft o drin coed gan Mr Gwynfor Owen, bu Mr John Meredydd Jones yn hel atgofion a chafwyd noson gerddorol yng nghwmni Mrs Maidwen Davies a'i chôr. Ar ben hynny, cafwyd cyngerdd gan blant yr ysgol gynradd Gymraeg leol – Ysgol Melin Gruffydd – adeg y Nadolig, a chinio Gŵyl Ddewi gyda Mr Gwyn L Davies yn ŵr gwadd.

Bydd gweithgareddau'r gymdeithas yn ailgychwyn ar nos Wener, 12 Hydref 1990, am 7.30pm. Yn draddodiadol, noson dan ofal y llywydd yw cyfarfod agoriadol y tymor, a'r hwn bydd y llywydd newydd, E Wyn James, yn rhoi sgwrs ar ganu gwerin Cwm Taf a'r cyffiniau. Caiff ei gynorthwyo gan ddau o gantorion adnabyddus yr Eglwys Newydd, sef Eleri Davies (sy'n canu yn y ddeuawd 'Elin ac Eleri') a Delwyn Siôn, a fydd yn canu rhai o ganeuon gwerin yr ardal.

Yn festri capel Bethel yn Heol Penllin, sef capel y Bedyddwyr yn y prif stryd yng nghanol yr Eglwys Newydd, y cynhelir y cyfarfod hwn, ac fe fydd croeso cynnes i bawb ddod iddo. Anogwn holl Gymry Cymraeg a dysgwyr yr Eglwys Newydd, yn hen ac yn ifanc, i gefnogi cyfarfodydd y gymdeithas. Dyma ffordd ymarferol iawn o hybu Cymreictod y cylch, a chael nosweithiau o ddifyrrwch a chwmnïaeth ddiddan yr un pryd.

Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Llywydd, Mr E Wyn James, 16 Kelston Road (Tel: 628754), neu'r Ysgrifennydd, Mrs Megan Williams, 69 Heol y Gors (Tel: 628733).

# O Aberaeron i San Moritz

**Yn wreiddiol o Aberaeron, Dyfed, mae Chris Jones wedi byw yng Nghaerdydd ers 4 blynedd bellach, ac wedi priodi athrawes Gymraeg o Gaerdydd, ac yn aelod o gapel Gymraeg y Crwys. Dechreuodd ei yrfa fel cynorthwywr efo Cwmni Ffilm & Fideo MERLIN ym Mhontcanna, ac erbyn heddiw, mae o'n gynhyrchydd yn ogystal â golygydd, gŵr camera a recordydd sain.**



Mae'r gwaith yn amrywiol ac yn bleserus dros ben, yn enwedig pan yn teithio i wledydd tramor megis Ffrainc, Sbaen a'r Swisdir. Yn ddiweddar, cafodd ei gomisiynu gan S4C i gynhyrchu 3 film fechan. Y cyntaf, am fywyd yn ein maes awyr yn y Rhws; yr ail yn edrych ar y bywyd allan yn St Moritz yn y Swisdir, yn ystod y bengampwriaeth bobsleigh. (Cafodd hon ei chynhyrchu, a'i chyflwyno a'i golygu gan Chris Jones yn Mis Chwefror, a chaiff ei dangos ar S4C yn ystod y gaeaf); a'r drydedd yw ffilm gynhwysfawr am sgio-dŵr ym mharc Bryn Bach, a'r canolbwynt yw'r llyn mawr 36 erw – hen safle pwll glo – a sy'n nawr yn cynnal gweithgareddau hwylio, pysgota, a sgio-dwr.

Fydd Chris yn cynhyrchu ac yn cyflwyno ffilm fechan ar y gweithgareddau sgio-dwr, a threfnir gan y clwb sgio dŵr. Bu'r criw yn ffilmio ar y 23 & 24 o'r mis yma, yn ogystal â'r 14 & 15 o fis Gorffennaf, sef cystadleuaeth rhwng Gogledd a De Cymru. Fydd y ffilm yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac fydd Chris yn cymryd rhan yn y weithred, ac yn trio ei lwc ar y sgis am y tro cyntaf, ac yn cyflwyno ei farn i'r camera. Fydd hon ymlaen ar S4C tua mis Awst. Mae Chris wedi cynhyrchu ffilmiau bychan eraill ar gyfer y sianel, a chafodd rheini dderbyniad da; mae e'n gobeithio y caiff y 3 nesaf yma hefyd, dderbyniad da gan wylwyr S4C. Dyma'r tro cyntaf iddo gyflwyno ei ffilmiau ei hunan, a mae o'n gobeithio y daw 'na bosibiliadau eraill o'u herwydd. Ei uchelgais yw cyflwyno ar S4C, a mae Chris yn gobeithio bydd y cynyrchiadau diweddaraf yma yn ddechrau ar rhywbeth newydd iddo fo a chwmni film Merlin.

"Dwi 'di eisie cyflwyno erioed. Dwi 'di casglu'r sgiliau technegol oddi wrth Merlin, a dwi'n gobeithio gwneud mwy o gyflwyno a chynhyrchu yn y dyfodol ar gyfer S4C phobl eraill. Mae 'di bod yn gret i brofi St Moritz ac i gael rhoi cynnig ar sgio dŵr am y tro cyntaf; a thrwy'r ffilmiau bychan yma, fe allaf ddangos i bobl be' dwi'n medru 'i wneud. Gobeithio yr eith ffilmio'r maes Awyr mor bleserus â'r ddau arall."



# *Cylch Llyfryddol Caerdydd*

Gwahoddiad cynnes yw hwn i chi ddod i'r cylch uchod y gaeaf hwn dan nawdd Astudiaethau Allanol y Brifysgol. Ffurfiwyd y cylch yn 1986 ac felly perthyn ffresni ieuengrwydd iddo o hyd! Deil y ffresni yn yr arlwy amrywiol a geir yn fisol mewn darlith a thrafodaeth.

Y gaeaf diwethaf cafwyd testunau amrywiol fel "Rhai o lyfrau'r Canrif", "Iolo Morganwg a'i lyfrau", "Byd y cofiannydd", "William Salesbury a'i Eiriadur", "Y bywyd Cymraeg ym mhen uchaf Cwm Rhymni", ac ar ddiwedd bob tymor ceir "Trysorau llên" pryd y gwahoddir rhai o aelodau'r cylch i arddangos rhai o'u trysorau llyfryddol personol a siarad amdanynt. Gwelir felly fod rhywbeth at ddant pawb.

Ar wahân i'r cyfarfod cyntaf a'r olaf, cynhelir y cyfarfodydd yn Ystafell G1, Adeilad y Dyniaethau yn y Brifysgol, Ffordd Colum am 7 o'r gloch ar nos Wener. Llywydd y Cylch yw'r cyn-Athro Ceri L Lewis; y Cadeirydd eleni yw'r Dr J Gwynfor Jones, y Trysorydd, Mrs Margaret Evans a'r Ysgrifennydd, E Wyn James (Ffôn: 628754). Tâl aelodaeth yw £3 a £4 i barau priod.

Cynhelir y cyfarfod cyntaf yn festri Minny Street nos Wener Medi 21 am 7pm a Mr D Llewellyn Walters yn siarad ar "Hydref yn y ddinas". CROESO MAWR!

**HE**

**LLONGYFARCH**

Ar Awst 3ydd yng Nghapel Tabernacl, y Barri, priodwyd Eleri Ceridwen, merch Alcwyn a Llywela Evans, Gwenfô, ac Eryl Huw, mab Vincent a Margaret Philips, Caerdydd. Dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd i'r ddau ohonyn nhw.

**DYDDIAD COPI**
**RHIFYN HYDREF**
**14 – 09 – 90**

DYMUNA'R DINESYDD GYDNABOD GYDA DIOLCH GEFNOGAETH Y SWYDDFA GYMREIG A CHYMDEITHAS GELFYDDYDAU DE DDWYRAIN CYMRU TUAG AT GOSTAU CYHOEDDI.

# CWM RHYMNI

Diddorol oedd chwilio yn yr arddangosfa Gelf a Chrefft, Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni, am gyfraniad pobl sy'n byw a gweithio yng Nghaerdydd. Cynlluniwyd catalog destlus iawn ar ddull un Casnewydd ym 1989 – sef maint A4, ac yn cynnwys nifer dda o luniau lliw ac erthyglau. Golygwyd y catalog gan E J Jones, y Waun.

Enillydd 'Medal Aur y Campwaith Crefft' oedd Morgen Hall, merch ifanc sy'n byw yn Nhreganna ac yn gweithio mewn stiwdio yng Nghanolfan Chapter. Yn yr Alban, yng nghrochenwaith Portsoy, y cafodd ei hyfforddi gyntaf yn y grefft. Aeth ymlaen i astudio cerameg yn Ysgol Gelfyddyd Gray's yn Aberdeen. Daeth y cysylltiad â Chaerdydd wrth iddi ddod yma i astudio ymhellach yn yr Athrofa Uwch, ac ennill gradd MA ym 1984.

Dywed fod dau beth yn peri iddi aros a gweithio yn y ddinas. Yn gyntaf, ei dyled am y cyfle a gafodd i rentu stiwdio yn Chapter o fewn wythnosau i orffen ei gradd – a hynny pam nad oedd ganddi syniad beth i'w wneud na ble i fynd. Yn ail, am ei bod yn hoff iawn o Gaerdydd a'i phobl; byw mewn dinas â chymaint o adeiladau Victoraidd, y brics, y teils a'r blociau terra-cotta, heb sôn am y gwahaniaeth rhwng tywydd Caerdydd ac Aberdeen!

Erbyn hyn, y mae galw am ei gwaith yn dod o fannau led-led Prydain, a hynny mae'n siŵr am i bobl gyd-weld â'r detholwyr yn dweud bywiogrwydd . . . amrywiaeth ffurfiau, a'r rheolaeth frwdfrydig ar liw, corff a sgleinwaith yn drawiadol o amlwg!



O droi at gystadleuaeth y 'Fedal Aur mewn Celfyddyd Cain', gwelir saith arlunydd o Gaerdydd allan o'r deg sy'n rhannu gwobr o £2,000. Y gresyn yw nad oedd gan y detholwyr yr hyder i ddewis un, neu efallai dau neu dri oedd yn haeddu rhannu'r wobr. Barn un o'r artistiaid oedd yn ymddangos, (ond heb gael gwobr) oedd nad oedd y rhaniad eleni yn ffordd deilwng o gydnabod yr holl waith a'r gallu a amlygwyd gan yr ymgeiswyr.

Mewn cystadleuaeth i 'Fyfyriwr y Flwyddyn' enillwyd y wobr gyntaf gan fyfyriwr o Athrofa Uwch De Morgannwg, Caerdydd. O'r tri choleg a gynrychiolwyd yn yr arddangosfa, yr oedd pymtheg o Athrofa Caerdydd, wyth o Athrofa Gwent, a dau o Adran Celf Weledol Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

Ymysg enillwyr cystadleuaeth Cerdd/Poster yr oedd dwy ferch o'r ddinas, un gŵr yn arddangos dan Celfi/Dodrefn, ac un dan Tyrnio. Ar wahân i waith Morgen Hall yr oedd dwy ferch arall o Gaerdydd yn arddangos crochenwaith. Yng nghystadleuaeth tecstiliau/crefft, rhannwyd yr ail wobr gan ddwy ferch, a dangoswyd gwaith un arall, ac mewn Brodwaith gwelwyd gwaith un ferch eto.

Cystadleuaeth werth chweil oedd 'Cywaith mewn unrhyw Gyfrwng' i rai anabl a braf oedd gweld Canolfan Ddydd Tremorfa yn rhannu'r wobr.

Cipiwyd ail wobr Ffotograffiaeth Agored gan bâr o Gaerdydd, a'r cyntaf a'r trydydd mewn Du a Gwyn hefyd yn dod i'r ddinas.

Ond yna cafwyd siom wrth chwilio yn ofer am gynrychiolaeth o ysgolion y ddinas a'r cylch yn arddangos yn y cystadlaethau i blant, rhwng rhif 233-239. Yna yn rhif 240 Ysgoloriaethau'r Eisteddfod ar gyfer lefel A, a TGAU, gwelwyd gwaith yn arddangos o Ysgolion Cyfun St Cyres a Radur. Dangoswyd gwaith A3 Ffasiwn un ferch o ysgol Uwchradd Caerdydd, ac yn adran Dylunio, Crefft a Thechnoleg rhoddwyd yr ail wobr i ddisgybl o Ysgol Gyfun Rhydfelen, ac ysgolion St Cyres a Radur eto yn arddangos. Yn olaf, gwelwyd un ferch o ysgol Esgob Llandaf dan TGAU Tecstiliau, a St Cyres eto yn arddangos gwaith TGAU, Crefft, Dylunio a Thechnolegau ddwy ferch.

Siomedig eto yw nad oedd dim o ysgolion Cymraeg Caerdydd hyd yn oed yn ymddangos eu gwaith. Am fwy o fanylion a gwybodaeth gweler catalog Celf a Chrefft 1990 pris £2.50.

**SD**

**CWPLED BUDDUGOL EMYR LEWIS YN Y BABELL LÊN.**
**MAE HENIAITH BLE BU MYNWENT. BLAEN Y GAD YW BLAENAU GWENT.**

# CLWB IFOR BACH

**11, Heol Womanby, Caerdydd CF1 2BR**
**Ffôn: (0222) 232199**

**Dosbarthiadau Cymraeg 1990-1991**

**(1) Cwrs WLPAN i ddechreuwyr**
**Nosweithiau Llûn, Mawrth a Iau**
**60 cyfarfod – 17/9/90 – tan 7/2/91**
**20 wythnos £75.00 – Diwaith £40.00**

**(2) Cwrs Wythnosol i ddechreuwyr**
**Prynhawn dydd Sadwrn – 2.30-4.00pm**
**36 wythnos £15.00 y tymor – Cychwyn 15/9/90**

**(3) Cwrs Parhau (ail flwyddyn)**
**Nosweithiau Sul – 7.15pm-9.15pm**
**30 wythnos £30.00 – Cychwyn 16/9/90**

**(4) Croesi'r Bont**
**Nosweithiau Mercher**
**3 tymor-tiwtor Gwilym Roberts**
**Cychwyn 19/9/90 – £30.00**

*** * * Adloniant Mis Medi 1990 * * ***
**Medi 1af R.S. + Eraill**
**Medi 8fed E.V. + Cefnogaeth**
**Medi 15fed Sobin a'r Smaeliaid & Cefnogaeth**

**I'r rhai ohonoch sydd heb ail ymaelodi ers mis Ebrill cofiwch wneud cyn y gaeaf!**

**Am fanylion pellach ynglyn a'r dosbarthiadau Cymraeg, aelodaeth, adloniant, gweithgareddau neu logiadau, cysyllter a'r**

***Rheolwr, Clwb Ifor Bach,***
***11 Heol Womanby, Caerdydd CF1 2BR***

# DIPLOMA ASTUDIAETHAU ALLANOL (Y GYMRAEG A'I LLENYDDIAETH)



Os oes diddordeb gyda chi mewn ennill cymhwyster Prifysgol neu ddilyn cwrs cyffredinol ar agweddau yn ymwneud â iaith a llenyddiaeth Gymraeg – yna beth am gofrestru ar gwrs Diploma'r Adran Efrydiau Allanol yn yr Hydref?

Cwrs dwy flynedd ydyw, yn cyfarfod pob nos Fawrth a nos Iau am ddau dymor (7.00-9.00pm). Gall y cwrs fod o ddiddordeb i Gymry Cymraeg a'r sawl sydd wedi dysgu Cymraeg i safon uchel.

Astudir uchafbwyntiau hanes ein llên o gyfnod y Cynfeirdd, y Mabinogi a Dafydd ap Gwilym hyd at Daniel Owen a Llenyddiaeth yr Ugeinfed Ganrif. Ymdrinir hefyd â nodweddion ieithyddol gan gynnwys tafodieitheg a chymdeithaseg iaith, ynghyd â diwylliant gwerin Cymru a thraddodiad llenyddol Morgannwg.

Cynhelir y cyfarfod agoriadol ar nos Fawrth, 2ail Hydref, 1990 yn yr Adran Gymraeg, Adeilad y Dyniaethau, Column Road, Caerdydd.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â'r Adran Efrydiau Allanol, 38 Heol y Parc, Caerdydd (874832).

# AMGUEDDFA WERIN CYMRU



# GŴYL FIHANGEL

## Dathliadau'r Cynhaeaf
## Sadwrn – Sul
## Medi 29 a 30 1990

*Gweithgareddau, adloniant ac arferion traddodiadol yn gysylltiedig â'r cynhaeaf*

Diwrnod dyrnu – Rhaffu gwellt – Cesig medi
Coginio, Pobi a Pharatoi bwydydd cartref
Grŵp Gwerin 'Hin Deg' – Dawnsio Gwerin
Chwaraeon Traddodiadol i Blant
a llu o grefftau a sgiliau eraill

*Gwasanaeth Diolchgarwch yng nghapel Pen-rhiw prynhawn Sul am 3.00pm*

AMGUEDDFA WERIN CYMRU
SAIN FFAGAN, CAERDYDD, Ffôn (0222) 569441

Amgueddfa Genedlaethol Cymru

# sain

## CASETIAU NEWYDD

| | |
|---|---|
| Mandela – Billy Bragg a Chôr Caerdydd | £1.99 |
| Old Kids off their Block | £1.99 |
| Edrych Ymlaen – Trebor Edwards | £6.49 |
| Côr Eifionydd | £6.49 |
| Sioe Gerdd III – Caryl Parry Jones | £6.49 |
| Edward Treskin | £3.99 |

## CASETIAU A CDs NEWYDD

| | *Caset* | *CDs* |
|---|---|---|
| Clymau Cytgerdd – Osian Elis | £6.49 | £9.50 |
| Adlais y Glyn – Côr Merched Hafren | £6.49 | £9.50 |
| Dwr Glan – Calennig | £6.49 | £9.50 |
| Awn Ymlaen Fel hyn – Mojo | £6.49 | £9.50 |
| Cysgodion Karma – Siân James | £6.49 | £9.50 |

## AR LABEL CRAI

| | |
|---|---|
| Cae Chwarae – Hefin Huws | £2.99 |
| Pob 6 Eiliad – Amddiffyn | £1.99 |
| Sgwarnogod Bach Bob – Bob Delyn a'r Ebillion | £4.99 |
| Record Bŵtleg o'r Powerhaus – Anhrefn | £2.99 |

**SAIN · LLANDWROG · CAERNARFON**
**FFÔN 0286 831111**

# CYTUN: EGLWYSI YNGHYD AR BERERINDOD

**Ddydd Sadwrn, y cyntaf o'r mis hwn, Medi 1990, mae eglwysi yng Nghymru, yn Lloegr ac Iwerddon yn cychwyn ar ddarn newydd o'u taith ynghyd – yn chwilio am yr undeb y gweddiodd Crist amdano, yn efengylu ac yn gwasanaethu'r byd gyda'i gilydd.**

Felly y dywed y daflen wybodaeth am CYTUN a ymddangosodd yng Ngorffennaf. Ynddi hefyd dywedir bod rhychwant eang o eglwysi yng Nghymru yn aelodau llawn o'r mudiad newydd hwn: Yr Eglwys Anglicanaidd, yr Eglwysi Rhyddion a'r Eglwys Gatholig Rufeinig. "Bydd hefyd yn croesawu cyfraniad yr Eglwysi Uniongred, Lutheraidd, Pentecostalaidd a'r rhai ag arweinyddiaeth ddu."

Ac ar y cyntaf o Fedi yn Aberystwyth bu cynrychiolwyr o'r gwahanol eglwysi'n dathlu ac yn ymrwymo, ar eu rhan, i uno mewn pererindod. I uno mewn ymrwymiad "i geisio dyfnhau eu cymundeb â Christ ac â'i gilydd yn yr eglwys, ei gorff ef, ac i gyflawni eu cenhadaeth o gyhoeddi yr Efengyl trwy dystiolaethu a gwasanaethu gyda'i gilydd yn y byd, er gogoniant yr un Duw, Dad, Fab ac Ysbryd Glân". Dywed y daflen ymhellach, "Nid yw datganiad o gredo yn rhan o draddodiad rhai o'r Eglwaysi sy'n aelodau o Cytun ond maent yn barod i wneud yr un ymrwymiad i'w amcanion".

## 'OES OTS?

Dyma nhw eto, meddech chi, yn sôn am weithredu'n unol â'i gilydd; rwy wedi clywed digon am y siarad 'ma am uno.

Mae Cyngor Eglwysi'r Byd yn cwrdd yn Canberra, Awstralia, fis Chwefror nesaf, a bydd cynrychiolaeth o rai enwadau (nid pob un sy'n aelod ohono) yn mynd iddo. Ie, dyna ni eto, meddech chi, nid pawb sy'n gytun ynghylch bod yn aelod ohono.

Wedyn mae Cyngor Eglwysi Prydain. Bu cynrychiolwyr o'r Cyngor hwn yn ymweld â Chymru'n ddiweddar, a disgwyliwn weld eu hadroddiad cyn bo hir. Maen nhw eisoes wedi cyhoeddi adroddiadau ar genhadu yn Iwerddon ac yn yr Alban. Beth fydd gyda nhw i'w ddweud am ein cenhadu ni yng Nghymru sydd gwestiwn. Tybed a ddeallson nhw beth yr oedd cynrychiolwyr o Gyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn ceisio'i ddweud, a nhwythau'n sôn am werth y diwylliant crefyddol Cymraeg, ymhlith materion eraill.

Ac yn awr y mae gennym CYTUN, sy'n cymryd lle Cyngor Eglwysi Cymru. Wel ie, meddech chi, rych chi'n gynghorau i gyd, ond yn amau eich gilydd ac yn anghytun â'ch gilydd mewn llawer o gyfeiriadau. Beth yw'r cyfiawnhad dros sôn am uno, felly?

Mae'r ateb yn dibynnu ar y ffordd y byddwn oll yn diffinio'r gair "uno". Y peth hawsaf yn y byd yw cyhuddo'r gwahanol enwadau a'r amryfal gyfundrefnau crefyddol eu bod, dros y canrifoedd, wedi amlygu rhaniadau a chulni meddwl a dogma. Ni allwn wadu nad oes gwirionedd yn y cyhuddiad, ac y mae'n destun cywilydd ac ing fod y rhaniadau hyn wedi esgor ar gasineb a lladd yn y gorffennol – yng Nghymru yn ogystal â gweddill y byd.

Y loes fwyaf yw bod achos Iesu Grist wedi dioddef oherwydd y dallineb a'r ofyn sy'n achosi anghytcord rhwng dyn a dyn, a bod y Gwirionedd wedi bod yn ysglyfaeth droeon i'r tueddiadau sydd ynom i gredu'n ddall bod rhan o'r gwirionedd yn bwysicach na'r cyfan ohono.

Efallai mai un o'r rhesymau pam y mae hanes eciwmeniaeth hyd yma braidd yn siomedig yw ein bod yn ddigon naïf i feddwl bod yno yn golygu cytuno â'n gilydd ynghylch pob manylyn o'n ffydd, ac ynghylch pob arfer a defod a fabwysiadwyd gennym fel enwadau a chyrff gwahanol. Nid unffurfiaeth yw undod.

Clywn y dyddiau hyn am dwf yr Eglwys yn y byd. Yn Korea, er enghraifft, y mae'r twf yn eithriadol, ond yn ôl a glywn y mae'r aelodau'n anghytuno ac yn ymrannu! Yng ngorllewin Ewrob, hynny yw yn ein gwareiddiad iwtilitaraidd a materol ni, y mae'n ynddangos fod yr Eglwys yn edwino. Barnu ydym, bid siwr, yn ôl y niferoedd sy'n mynychu capel ac eglwys. Nid yw hynny, o angenrheidrwydd, yn dweud dim oll am rymuster y dystiolaeth. Yn wir, mae'n bosibl bod mwy o dystiolaeth Gristionogol yng Nghymru heddiw nag a fu gynt.

O leiaf, mae'n ymddangos fod mwy o barodrwydd, heddiw, i fyfyrio'n ddwys a chyda meddwl agored, ymofynnol, ar faterion ffydd. Efallai yn wir bod hynny'n deillio o'r her sy'n ein wynebu ni heddiw, fel enwadau gwahanol, i geisio canfod ein rhan yn y byd a'r gwareiddiad sydd ohoni, hynny yw yn ieithwedd y Beibl, i ganfod ewyllys Duw. Dichon na fu'r her hon erioed yn fwy nag ydyw heddiw. Y mae'n galw am onestrwydd meddwl, am ymagweddu di-ragfarn, am ymgais na fu ei gyffelyb yn ein hanes ni, o leiaf, i adnabod Iesu Grist goruwch popeth. Mae hynny'n bwysicach na'n gwybodaeth am un dim arall a berthyn i'n harferion o grefydda.

Mae amcanion CYTUN yn crynhoi'r safbwynt yn y geiriau canlynol (er mai ni sy'n gyfrifol am y tanlinellu) –

"Bydd CYTUN yn ceisio gweithredu . . . drwy:

(i) ddwyn yr eglwysi yng Nghymru ynghyd yn *holl gyfoeth eu hamrywiaeth presennol*, fel y gallant *ddysgu wrth draddodiad ei gilydd a'u gwerthfawrogi, gan eu parchu'n gyfartal;*

(ii) gynnig i'r eglwysi y cyfle i wneud ymrwymiad newydd i *fyfyrio'n* ddiwinyddol *gyda'i gilydd* ar faterion ffydd, trefn a moesoldeb; i *weddïo gyda'i gilydd a i ddysgu gwerthfawrogi patrymau gweddi ei gilydd, i weithio gyda'i gilydd, gan rannu adnoddau a chyflwyno'r Efengyl mewn gair a gweithred;*

(iii) *geisio cynorthwyo'r eglwysi i ddod i un meddwl* fel y gallant dyfu i undeb llawnach mewn ffydd, cymundeb, gofal bugeiliol a chenhadaeth;

(iv) weithredu fel corff sy'n galluogi'r eglwysi eu hunain *i wneud penderfuniadau yng nghyd-destun astudio, gweddïo ac addoli gyda'i gilydd;*

(v) alluogi'r eglwysi i wneud yr hyn a fedrant *gyda'i gilydd*".

Yr ydym ni, Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd, yn ceisio gweithio i'r cyfeiriad hwn yma yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Isod y mae enwau'r eglwaysi sy'n rhan o'r Cyngor hwn. Cawn gyfle eto i sôn am weithrediadau'r Cyngor yn fanylach. Digon ar hyn o bryd yw dweud y byddwn yn cyfarfod yn festri eglwys Minny Street ar nos Iau, Medi 13eg, i wrando ar y Tad Ieuan Wyn Jones yn traethu ar y testun "Un ffydd, un byd". Ac ar fore dydd Iau yn festri Minny Street dechreuwn gyfres o astudiaethau ar gyfraniad Williams, Pantycelyn. Arweinydd

y drafodaeth yn y cyfarfod cyntaf hwn fydd y Parch Cynwil Williams. (Bwriad y cyfarfodydd boreol hyn yw bwydo a mireinio meddyliau ein gilydd, yn weinidogion ac yn lleygwyr.

Yr ydym yn dra diolchgar i Olygydd Y Dinesydd am hyn o ofod i sôn am sefydlu CYTUN. Gobeithiwn y bydd y cydweithredu hwn yn parhau. Odid nad oes yr un papur bro arall yng Nghymru yn mynd i gynifer o aelwydydd, nac yn cael cynulleidfa mor niferus – a chynulleidfa sydd gymaint ar wasgar mewn ac o amgylch dinas. Fe gredwn ni, er ein holl wendidau fel eglwysi, fod gennym gyfraniad i'r diwylliant a'r bywyd Cymraeg yn y rhanbarth hwn o Gymru, a byddem (drwy gydweithrediad y Golygydd) yn fodlon cynnal deialog ag unrhyw un o'r darllenwyr sy'n teimlo rheidrwydd i ymateb – mewn unrhyw fodd – i'n datganiadau, a/neu i awgrymu ffyrdd a all ein helpu i wynebu anghenion amryfal a chymhleth y byd yr ydym oll yn rhan ohono.

**Illtyd Lewis**

# Seithfed Ysgol i Ardal y Rhath?

Bron i flwyddyn yn ôl fe grybwyllwyd, mewn brawddeg fer yn y Dinesydd, y syniad o wei.' chweched ysgol Gymraeg Caerdydd yn dod i ardal y Rhath, neu rywle yng nghanol/dwyrain y ddinas. Mae'r twf mewn addysg feithrin Gymraeg, ac apêl yr ardal i deuluoedd ifanc, yn tystio i'r galw sydd yna am ysgol i wasanaethu'r ardal hon fel cymuned. Bellach, clywsom mai'r hen Bryntaf ym Mhencae fydd y chweched ysgol. Mae pob ysgol Gymraeg newydd i'w chroesawu â breichiau agored, wrth gwrs – ond nid yw agor ysgol newydd yn Llandaf yn gwneud dim i liniaru'r broblem sy'n mynd i fod yn yr ardal hon yn y Rhath. Mae'r ysgol gynradd yn Llanrhymni, sy'n derbyn plant y Rhath a'r cyffiniau, yn llawn dop, ac fe fyddai'n drueni mawr gweld plant cymunedau canol Caerdydd yn cael eu gwasgaru i wahanol ysgolion er mwyn ymdopi â phroblem niferoedd.

Oherwydd hyn, fe gynhelir Cyfarfod Cyhoeddus nos Fawrth, Hydref 16 am 7.30 yn ardal y Rhath, er mwyn cyflwyno gwybodaeth ar y mater hwn i rieni'r ardal, ac i alw ar fyrder am seithfed ysgol Gymraeg i'r rhan yma o'r ddinas. Pwyllgor Rhanbarth Caerdydd o'r Mudiad Ysgolion Meithrin sydd yn galw'r cyfarfod.

Nid yw'r union leoliad wedi ei gadarnhau eto wrth i'r pwt fyd i'r wasg. Ond fe fydd manylion llawn yn rhifyn Hydref o'r Dinesydd. Ceisiwch ddod i gefnogi, yn enwedig os yw hyn i gyd yn effeithio ar addysg eich plentyn. Bydd croeso i bawb.

**DYDDIAD COPI**
**RHIFYN HYDREF**
**14 – 09 – 90**

## BETHEL, RHIWBEINA, EGLWYS Y WESLEAID

Gweinidog: Y Parch Brychan Hughes (Ffôn: 758258)
Ysgrifennydd: Mr Gwyndaf Owen (564574)

Sul am 9.45am. Oedfa deuluol ac Ysgol Sul y plant am 10.15.

## BETHLEHEM, GWAELOD Y GARTH, EGLWYS YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Gweinidog: Y Parch T J Davies (843750)
Ysgrifennydd: Mr Robin Bateman (626759)

Sul am 10.30am. Oedfa deuluol ac Ysgol Sul i'r plant
5.00pm. Oedfa anffurfiol, yn ddarlith/drafodaeth/seiat, etc.
Bob yn ail nos Lun yn y gaeaf, Dosbarth Beiblaidd, o dŷ i dŷ.

## Y CRWYS, EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

Gweinidog: Y Parch W I Cynwil Williams (486457)
Ysgrifennydd: Mr D Gwyn Jones (627435)

Sul am 10.30am. Oedfa Deuluol
2.30pm. Ysgol Sul yn Y Crwys a hefyd yn yr Eglwys Newydd
6.00pm. Oedfa
Mercher am 2.15pm. Dosbarth y chwiorydd/Y Broderfa

Iau am 7.30pm Cwrdd Eglwysig
Gwener am 7.30pm Y Gymdeithas
Sadwrn am 6.00pm Clwb Ieuenctid

## EGLWYS DEWI SANT, YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Ficer: Y Parch F J Saunders Davies

Sul am 8.00am. Cymun Bendigaid
11.00am. Cymun ar gân (Sul 1 a 3 bob mis)
Boreol Weddi (Sul 2 bob mis)
Oedfa'r Teulu (Sul 4 bob mis)
6.00pm. Hwyrol Weddi (Sul 1 a 3)
Cymun Bendigaid (Sul 2 a 4)

Gweinyddir Y Cymun Bendigaid ar Wyliau'r Saint am 8.00am a phob bore Mawrth am 10.30am, gyda choffi i bawb yn y Neuadd am 11.00am.
Â'r plant i'r Ysgol Sul am 11.15am.

## EBENESER, EGLWYS YR ANNIBYNWYR CYMRAEG, HEOL SIARL

Gweinidog: Y Parch Geraint Tudur (490582)
Ysgrifennydd: Dr Emrys Evans (512985)

Sul am 10.30am. Oedfa deuluol, Ysgol Sul yn dilyn
3.00pm. Yng Nghanolfan Hamdden Llanrhymni, Ysgol Sul i blant y cylch
Sul am 6.00pm. Oedfa'r Hwyr
Nos Lun am 7 Cwrdd Gweddi
Now Fawrth gyntaf y mis am 7 Y Gymdeithas
Nos Fercher am 7 paratoi bwyd i'r di-gartref
Iau am 2.15pm. Cyfarfod y Merched
Nos Iau am 6 Clwb Y Plant

## EGLWYS YR ANNIBYNWYR CYMRAEG, MINNY STREET

Gweinidog: Y Parch Ieuan Davies (763251)
Ysgrifennydd: Mr Iwan Jones (752727)

Sul am 10.30am. Oedfa deuluol, Ysgol Sul yn dilyn
6.00pm. Oedfa
Now Fawrth am 7.15pm. Y Gymdeithas
Nos Iau am 7.15pm. Dosbarth Beiblaidd/Cwrdd Paratoad
Nos Wener am 6.00pm Clwb y plant

## SALEM, TREGANNA, EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

Gweinidog: Y Parch Haydn Thomas (565105)
Ysgrifennydd: Mr Richard Hall Williams (562472)

Sul am 10.30am. Oedfa deuluol, Ysgol Sul y plant yn dilyn
6.00pm. Oedfa
Dydd Mawrth am 4.00pm. Clwb TRURO
Nos Fercher am 7.00pm. Dosbarth Beiblaidd (Cymdeithas Y Gadwyn unwaith y mis)

Bydd Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn cyfarfod eleni ar yr ail nos Iau ymhob mis, ac yn symud o un eglwys i'r llall. Estynnir croeso cynnes i bawb.

**Illtyd Lewis**
*Ysgrifennydd Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd)*

# PORTREAD "LONA"

## *gan Nia Hall Williams*

'Bod yn deidi' – dyna hyd a lled y berthynas rhwng Lona Roberts a'i dillad!

"Does gen i fawr o ddiddordeb mewn ffasiwn" meddai "a beth bynnag mae prisiau heddi'n ddigon i godi gwallt y mhen i."

Pen o wallt tywyll, trwchus ydi hwnnw ac, yn 45 oed, mae Lona'n ferch ddeniadol, fywiog; ac hefyd yn weinidog ordeiniedig gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, un o ddau weinidog amser-llawn Cymraeg yr enwad yn ne-ddwyrain Cymru.

Saif y pedwar capel dan ei gofal mewn clustwr o amgylch y man ble suddwyd y pwll-glo cyntaf yn y Rhondda; tri ohonyn nhw o fewn taith emyn-don i'w gilydd yn Nhre-alaw, Ton-y-pandy a Phen-y-graig a'r llall yn y Porth ar gornel brysur lle mae'r gwynt yn chwythu olion 'take-away' y Sadwrn o'r siop chips dros y ffordd i'r iard gul o flaen y Capel.

Gan fod taith hanner-awr yn y Mini melyn rhwng ei gofalaeth a'i chartre yn Llanishen un o faesdrefi gogleddol Caerdydd, bydd y larwm yn canu'n fore ar y Sul a Lona'n codi'n blygeiniol i ddod i ben a'i pharatoiadau.

Fel gweud y stwffin! "Cig, stwffin a dau veg fydd ar y menu bob amser – onibai mod i'n gweld diwrnod prysur ofnadw o 'mlaen a phr yd hynny mae'r teulu'n nabod y seins yn iawn ac 'O, diar, casserole eto' fydd y gŵyn".

Y teulu dan sylw yw ei gwr, Huw, sy'n olygydd gwers-lyfrau gyda'r Cyd. Bwyllgor Addysg a'u plant – Dafydd, 19, myfwyriwr yng Ngholeg Bangor a'r merched Mared, 18, a Gwerfyl, 15, y ddwy'n ddisgyblion yn Glantaf, Ysgol Uwchradd Gymraeg y brif-ddinas.

Dywed Lona eu bod nhw'n deyrngor iawn iddi hi a'i gwaith "er dwi'n amau mod i 'mhell o fod yn 'normal' yn eu golwg nhw".

Ei phryder am ddyfodol y plant oedd prif cymhelliad ei phenderfyniad i gynnig am radd BD a throi at y weinidogaeth ddeng-mlynedd yn ôl (cyn hynny bu'n gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol) "fynnwn i mo'u gweld nhw'n tyfu lan mewn cymdeithas heb gapel i fynd iddo fe – a 'fydd na ddim capeli ymhen ychydig flynyddau heb y gweinidogion, yr arweinwyr, i'w cynnal nhw. Felly . . . wel . . . dyna ni."

Mae'r rhesymeg yn frawychus o syml, yn symlach o dipyn na'r broses o weithredu penderfyniad. Mynnodd ddilyn cwrs llawn ("pedair blynedd o chwysu efo 'ngwaith – cartre Hebraeg – O'r nefi wen!") rhag i neb ei chyhuddo, fel merch, o gymryd y ffor-gynta at ei nod.

Heddiw mae'n cynnal capel a chartre ar yn cyd ac yn troi at yr hen ganllaw 'bod yn deidi' i 'sgafnu bai ch. 'Does dim amser i'r ffrils' meddai ac er iddi barchu glendid fel arf rhag afiechyd mae'n diolch am y pellter daeryddol rhyngddi hi a'i phraidd gyda'u glanweithdra diarhebol – "rhag iddyn nhw weld y lle 'ma ar ei waetha".

Yn ôl Lona nid amlyniad i fwced a brws yw'r unig yn o hen nodweddion y Rhondda i ddal ei dir. Mae'r agosatrwydd cynhesol a'r parch at arian yno o hyd. Heb anghofio hefyd y gallu i siarad heb flewyn ar dafod, neu 'talking straight' fel byddai 90% o'r bobeogaeth yn ddweud heddiw. Saith mil sy'n siarad Cymraeg yn awr lle bu 70,000 ar ddechrau'r ganrif. Dim rhyfedd mai llwythau tenau sy'n dod ynghŷd i frychu unigeddau hen deimlau'r Cwm.

"Oes Cymro eto?" gofynnai Lona wrth gychwyn ar ei gweinidogaeth. Oes, meddai Ysgolion Cymraeg yr ardal; ysgolion fel Llwyncelyn yr ysgol y bu ei thad Gwyn Daniel (ysgrifennydd cyntaf UCAC a chorwynt o egni) yr ymgyrchu drosti.

A Bodringallt, lle bu ei hen-nain yn sgwrio lloriau bob yn ail a chadw siop-losin yn ei pharlwr i gynnal ei theulu ar ôl colli ei gwr yn y pwll.

Cafodd groeso a chefnogaeth a brwdfrydedd. Trefnodd ddwy ysgol ar y Sul a dau glwb min-nos ar gyfer y plant ac hynny fwy neu lai ar ei phen ei hun (nid ei geiriau hi).

Mae'n ddigon call i wybod mai chwarae mig ag atryniadau fel nofio a karate wnaiff gweithgareddau Capelol – hyd yn oed yn eu gwisg newydd o jins a chrys – T. "Ond 'na lyfli'u gweld nhw pan ddon nhw'n ôl."

Sy'n deimlad cyfarwydd, mae'n siwr, i Huw Roberts pan fydd ei wraig yn gweithio'n hwyr. Dywed Lona ei fod yn amyneddyor ac yn barod i droi handlen y dyblygydd wrth roi ei chylch-lythyr misol i'w wely ("munad ola' bob amser"). Ond mae ei horiau anghymdeithasol yn ddigon i drethu sant heb son am wr ac ambellwaith fydd 'na 'ructions' yn Llanishen "ond mi fydda i'n deud wrtho fe gyfi 'i fendithion – wedi'r cwbwl nid mynd allan i hel dynion fydda'i".

Ond byd gwrwaidd yw byd y goler gron. Caiff Lona ei derbyn fel brawd/chwaer yn y 'Fraternal' lleol (cynhulliad o'i chyd-weinidogion) ac mae'n rhyfeddu'n dawel at y rhai yn yr Eglwys yng Nghymru sy'n gwarafun ordinhad lawn i ferched.

Hyd yn oed ar ol clywed eu tystiolaeth ysgrythurol? "O, wel" meddai "dewis a dethol eu dyfyniadau fyddon nhw er mwyn cynnal eu dadl. Mae'r eglwys yr agored i bawb yn ddiwahan. Llais pendant heb fod yn llais ymosodol. Nid testun dadl mo hawliau merched i Lona. Ond testun pregeth yw apartheid a thlodi a phrin bod angen holi ei barn am hawl yr eglwys i ymyrru â pholitics.

"Wrth gwrs bod rhaid i'r Efengyl fod yn ymarferol. Neu se waeth i ni gau siop. Heddi."

Y gwir yw bod llawer o siopau'r Cwm wedi cau eisoes.

"Nid yw Cymru ar werth" meddai'r graffiti ar bont y Porth. Ond mae ei Chapeli 'For Sale'. Gwerthwyd deugain o gapeli'r Henaduriaeth yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf gyda phump yn aros am gwsmer.

Mae'r gweddill fel capeli Lona, yn dangos eu hoed a'r gost o dendio gwendidau hen gorff yn trethu cynulleidfa oedrannus (dim ond 8 o'r 120 aelod sydd o dan oed ymddeol).

Talcen caled i weinidog ond tra bydd eu phedwr capel a eu traed fe fydd Lona'n agor eu drysau i bawb, 'Nid 'paid a mynd i'r Pub' fyddai'i chenadwri ond 'dere i'r capel' a'r gwahoddiad hwnnw'n wahoddiad i addoli. Oherwydd er yr holl glybiau a chyfarfodydd chwiorydd gyda'u herwau o wrthbannau ar gyfer Mozambique a'r chwaer Teresa, addoldy yn anad dim yw ei chapel.

Ac mae ffurf yr addoliad yn ei phoeni.

"Mae'n iaith ni'n hen ffasiwn – rhaid ini stwytho hi. Mae'n gwasanaethau ni'n gaeth i reolau. Pa isie rheolau? Rhaid i un greu'n traddodiadau newydd. Bod yn barod i addrefnu'r capel er mwyn ini gael closio at ein gilydd. Rhoi cyfle i bawb gymryd rhan, cyd-ddarllen, cyd weddio. Rhoi lle i dawelwch weithiau – a lle bob amser i baned o goffi da'n gilydd cyn mynd shua thre."

Nid ymdrech i bopiwlyreiddio crefydd 'drwy symud gyda'r oes i gyfeiliant gitar' mo hon; ei diben yw creu cyfathrach rhwng Duw a chynulleidfa, "heb fynd dros ben llestri fel y rhai sy'n sôn am 'The Lord' fel tasen nhw'n siarad am Mr Jones drws nesa."

I bob golwg mae Lona ar dermau agosach na'r cyffredin a'i Duw. Gall ymgolli hyd at ddagrau ar ganol gweddi, ymateb anhebyg mewn ymgom â dieithryn, annodd ei gyrraedd. Ac ymateb si'n peri embaras i rai. Gwnaift ei gorau i fygu dagrau'r Sul ac mewn angladd mae'n llwyddo "er mwyn pawb. Ond mi fydda i'n llefain stecs ar y ffor gartre."

Fydd hi hefyd yn llefain amhell waith wrth wynebu ei gwaith a phroblemau'r weinidogaeth? "Na fydda. Mi fydda i'n gofidio wrth gwrs am y dyfodol. Ond ddim yma yn y Rhondda fwy mag unman arall. Does na ddim man gwyn mandraw. Jyst bwrw 'mlaen sy raid."

Jyst fel ei hen-nain ers talwm, ar ei gliniau yn ysgol Bodringallt.

# HEL MEDDYLIAU

**"Mae'r oll yn gysegredig . . ."**

**Islwyn, y bardd mawr o Went, oedd yn sibrwd y geiriau yn fy nghlust wrth imi gerdded maes yr Eisteddfod ym Mharc Bryn Bach; mae'n siŵr ei fod ef o bawb yn gyfarwydd â'r fangre ag yntau'n byw nid nepell oddi yno.**

("Blydi nonsens – maddeuwch y gair – ond siarad pregethwrs dwl ydi siarad fel 'na heddi".)

Yr wythnos honno roedd y cyfan yn gysegredig i bob Cymro a Chymraes o'r iawn ryw – yr iaith fel brenhines am wythnos o leiaf mewn blwyddyn, y barddoni a'r canu, y cyfeillachu a'r cystadlu iach. A'r wlad o'n cwmpas fel pe'n adleisio'r cysegredigrwydd i fod mewn cytgord â meddylfryd Islwyn.

("Ond mae ei wedi marw ers 1878. Pa ddwyli ydi sôn am fardd sydd wedi marw?")

"Bu llawer brawd a chyndad hoff i mi . . ./Ar hyd y bryniau hyn ar lawer nawn/Yn canu neu yn wylo fel y caed/Profiadau bywyd." I Islwyn, y profiadau *dynol* a wnâi bob peth a phob man yn gysegredig iddo. Nid yw'n sôn am na Chreawdwr na Duw. Deillia'r cysegredigrwydd i gyd o'r dynol yn unig. Pam lai? Nid yw'n llai cysegredig oherwydd hynny.

("Dyna ddod dipyn bach yn agosach at realiti nawr, a'n trâd ar y ddaear.")

Ac yna cofiais am frawddeg fythgofiadwy a glywais ar y radio – yn y pum – neu'r chwe degau ie? – geiriau gwleidydd, y diweddar Iorwerth ("Iori") Thomas, Aelod Seneddol dros ranbarth o'r Rhondda, mewn dadl â Gwynfor. *"Land is land"* meddai. Yr anhygoel eiriau! A ddywedwyd geiriau mwy anfoesol erioed wrth sôn am wlad? – ac am Gymru. Siawns nad oes gan ambell i bagan syniad am ysbryd ac ysbrydion yn y cyfanfyd. Ond "tir yw tir" meddai'r gwleidydd realistig ac nid yw tir ond hyn sy'n wahanol i'r môr, yn lle i droedio arno, i godi tŷ neu ffatri neu ei rwygo'n ddihid er mwyn elw. Nid yw'n ddim mwy na hynnu.

("Falle – falle – fod e' wedi mynd yn rhy bell . . .")

Pwy oedd yn iawn? Ai'r bardd ai'r gwleidydd? Dim rhyfedd i rywrai haeru nad yw gwleidyddiaeth yn ddiogel bob amser yn nwylo gwleidyddion.

* * *

"Mae y byd/I gyd yn gysegredig, a phob ban/Yn dwyn ei gerub a'i dragwyddol gainc . . ."

Daliai Islwyn i sibrwd yn fy nghlust. Wel, os ceir ambell i gerub ar bob ban yng Nghymru, aeth Gwenallt ymhellach: "Bu'r angylion yma'n tramwy . . ." Ail ris yn nhrefn yr angylion yw'r ceriwbiaid meddai'r gwyddoniadur. A meddai Gwenallt ymhellach: "Gorwedd llwch holl saint yr oesoedd/A'r merthyron yn dy gôl . . ." – a dyna wneud Cymru yn sicr yn gysegredig.

**"Llwch y saint." A dyma syniad yn dod i mhen i. Yn wyneb y mewnlifiad mwyaf brawychus yn ein hanes a dihidrwydd bradwrus rhai Cymry, onid da fyddai i lwch pob un ohonom gael ei wasgaru dros ddaear Cymru gyfan ar ôl ein marw? A fydd "yr oll yn gysegredig" wedyn tybed? Neu ai "tir yw tir" fydd yn wir bryd hynny hyd yn oed?**

**Huw Ethall**

# S4C
# Tri yn Ymuno â'r Sianel

**Mae S4C wedi apwyntio tri pherson newydd yn dilyn cyfweliadau diweddar.**

Bydd dau ohonynt yn gweithio yn yr Adran Gomisiynu; *Dwynwen Berry* yw'r Golygydd Sgriptiau sydd eisoes wrth ei desg a *Dafydd Rhys* fydd yn ymuno ym mis Awst i ddechrau ar ei waith newydd fel Comisiynydd rhaglenni plant a phobl ifainc. Bydd y trydydd aelod newydd, *Menna Lewis*, yn cychwyn fel Swyddog Marchnata yn yr Adran Farchnata, hefyd ym mis Awst.

Mae'r ddau aelod newydd yn yr Adran Gomisiynu yn dwyn profiad eang o fyd teledu i'w swyddi.

Mae *Dwynwen Berry* wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ar ôl graddio mewn Cymraeg a Drama yng Ngholeg Prifysgol



*Dwynwen Berry*

Cymru Bangor. Daw yn wreiddiol o Lanrwst a mynychodd Ysgol Ramadeg y dre ac Ysgol Dyffryn Conwy. Mae ganddi brofiad helaeth o sgrifennu ar gyfer y theatr, radio a theledu. Ar ôl gadael coleg gweithiodd fel actores am gyfnod, ond yn ddiweddar canolbwyntiodd ar sgrifennu scriptiau ar gyfer dramâu poblogaidd fel *Pobol y Cwm* a *Dinas*. Bu hefyd yn olygydd sgriptiau ar gyfres Saesneg BBC Cymru *District Nurse*.



*Dafydd Rhys*

Ganwyd *Dafydd Rhys* ym Mrynaman ond fe'i magwyd yn Llanelli, lle cafodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn, sydd erbyn hyn yn Ysgol Gyfun y Graig. Aeth ymlaen i astudio drama yn y Coleg Normal, bangor ac yna ymunodd ag HTV yng Nghaerdydd i weithio fel ymchwilydd/is-gynhyrchydd. Canolbwyntiodd yn arbennig ar raglenni i'r ifainc ond bu hefyd yn gweithio ar raglenni plant. Yn ddiweddar Dafydd oedd un o sefydlwyr y cwmni annibynnol CRIW BYW, sydd yn cynhyrchu *Fideo 9* ac *MC* ar gyfer y Sianel.



*Menna Lewis*

Daw *Menna Lewis* o Aberaeron. Aeth i Ysgol Gyfun Aberaeron ac ymlaen i Goleg Prifysgol Cymru Caerdydd, lle graddiodd gydag anrhydedd mewn BSc Econ – gan ganolbwyntio ar Astudiaethau Ewropeaidd, Ffrangeg ac Almaeneg. Yn syth ar ôl gorffen coleg enillodd ysgoloriaeth i fynychu cynllun hyfforddi rheolwyr cwmni Disney yn Florida, ac yna dychwelodd i weithio gyda Datblygu'r Canolbarth fel Swyddog Marchnata. Symudodd i weithio gydag Awdurdod Datblygu Cymru ym mis Tachwedd 1987 a bu'n gweithio fel Swyddog Marchnata ar gyfer Gogledd America, ac yn ddiweddarach Ewrop, gyda'r Awdurdod ers hynny.

# MENNA'N MANYLU



**Yn ddiweddar, penderfynodd pedair ohonom dreulio mwy o benwythnos yn blasu harddwch a diwylliant gwahanol ardaloedd o Gymru – gan ddechre'r 'fenter newydd' ym Mhenfro gan aros yn y Llew Aur Trefdraeth.**

Braf iawn oedd chwilota drwy'r llyfr ymwelwyr a gweld enwe cyfarwydd ynddo, gan hiraethu hefyd am enwogion megis Ryan, Rhydderch a Gari.

Treuliasom ddiwrnod cyfa'n trafaelio arfordir Penfro gan ddechre ym Mhwll Deri, lle cafodd Dewi Emrys (1879-1952) ei ysbrydoli i gyfansoddi'r gerdd enwog honno o'r un enw, a braf iawn oedd 'sefyll' o flaen ei gofeb yn darllen dyfyniad o'r gerdd honno:

'A thine'r meddylie sy'n dwad ichi
Wrth ichi ishte uwchben Pwll Deri.'

Ymlaen wedyn i Borthgain – pentre lle bu hen forwyr y sir yn gweithio'n ddygn yn y porthladd a phentre gafodd ei anfarwoli mor ganmoladwy a chiodwiw gan Ruth Barker yn ei chân. Yma hefyd mae "Stryd" o dai sydd wedi eu prynu ganddi hi a chriw o bobol leol i sicrhau meddiant a dyfodol i'r Cymry Cymraeg – a diolch amdanynt mewn ardal lle mae'r dieithriaid yn prysur ddifa'r amgylchfyd, arolygfa a'r iaith.

Mi glywais lawer o sôn am y felin enwog honno nad yw'n malu yn Nhrefin, a gwir fo'r gair gan mai adfail yn unig sydd yno, a'r unig beth oedd yn malu oedd fi a'n ffrindie a'r tonne ar y traeth 'ym min y môr' chwedl Crwys.

Roedd mwy o fywyd ym mynwent Cwm y Felin ac yma saif olion hen eglwys o'r drydedd ganrif ar ddeg, ond bod gwynt a rhyferthwy stormydd geirwon wedi eu difetha yn y ganrif ddiwetha.

Wrth drafelio'n gyfochrog â'r môr, braf oedd gweld yr hen 'fythynnod bach to cain', gwyngalchog ar y llechweddau gan ofidio yr un pryd ai estron neu beidio oedd yn trigo yno.

Dyna'n union oedd y sefyllfa yn Nhŷ Ddewi – prin iawn oedd y Gymraeg ar ein clyw a phrinnach fyth oedd unrhyw wybodaeth Gymraeg yn yr Eglwys Gadeiriol – siomedig, er mor osgeiddig a chadarn oedd yn edrych.

Gan i ni dreulio peth amser yn Nhŷ Ddewi, rhaid oedd picio i weld cofeb ei fam yng Nghapel Non, a safai nid repell o drigfan encilio – lle digon diarffordd a di-nod gyda ffynnon a cherflun yn unig mewn cae uwchlaw'r môr.

Y bore canlynol, ar ôl noson hyfryd ar y gwin a sgwrs efo cymeriadau lleol yn y Castle, dyma fanteisio ar awr neu ddwy i gerdded i gopa mynydd Cwmgwili i flasu'r olygfa odidog o'r brig. I lawr wedyn i gerdded ar y ddau draeth, gan hel pricie tân i mam yr un pryd!

Ar y ffordd yn ôl i Gaerdydd, taro ar hen siambr gladdu ym Mhentre Ifan, sy'n dyddio'n ôl i'r flwyddyn tair mil, cyn Crist, a synnu at gymaint o wybodaeth sydd ar gael o arferion a thraddodiade cynnar yr hen Gymry.

I ddiweddu'r penwythnos ddifyr, llawn hanesion a ffeithie, dyne fynd am baned at berthynas i ni yn Llandudoch – Halkiet Jones a'i wraig, Eurwen.

Dwi'n edrych ymlaen rwan at benwythnos arall yn aros yn ardal gefn gwlad ac amaethyddol Tregaron. Gobeithio bod y syniad hwn o drafaelio'r wlad wedi esgor ar awydd a diddordeb yno chithe i fanteisio ar harddwch natur a threftadaeth ein gwlad ein hunain.


YMUNWCH AG
UCAC

DROS
GYFUNDREFN
ADDYSG
ANNIBYNNOL I
GYMRU

HERITAGE PARK · PARC TREFTADAETH
Rhondda
PARC TREFTADAETH
Y RHONDDA


Dewch a'r teulu i brofi dipyn o hanes unigryw Cymoedd De Cymru.
Ceir arddangosfa fywiog o hanes y Rhondda, Oriel Gelf, siop goffi, siop lyfrau a chrefftau.

DYDD SADWRN 8 MEDI 1990
GWYL BANDIAU PRES

Mae'r Ganolfan Ymwelwyr ar agor *bob dydd*
10.00am-5.00pm
(dim ond 20 muned o Gaerdydd!)

**Oedolion £1.00 – Gostyngiadau 70c**

Parc Treftadaeth y Rhondda
Lewis Merthyr
Ffordd Coed Cae
Trehafod
Morgannwg Ganol
Ffon: 0443 682036



# CROESAIR AP LEWSYN Rhif 103 — Medi 1990

AR DRAWS:

5. Llw diniwed nad yw'n taro deuddeg.(2,1,3)
8. Er bod hyd ar gêl, eto mae'n bosib cael esboniad ohono. (8)
9. Esbonio eto, o ongl arall, o'r de, ac yn ei chanol hi. (7)
10. Mae sŵn cloi'r siop yn y cronfur. (5)
11. Wynebau cyfarwydd sydd gan ddau asyn D.B. (9)
13. Tîm o chwaraewyr sydd ag un blaenwr yn unig. (8)
14. Gwaredir y rhai sy'n bur iach. (6)
17. Rhan o'r gerdd sy'n bodloni'r beirniaid . . . (3)
19. . . . a rhan o ymadrodd digon cyffredin. (3)
20. Nid menyn yn unig a geir yn y bwtri. (6)
23. Mae cig da yn gwneud dyn yn golegol, os nad yn ysgolheigaidd. (8)
26. Yr ydych yn maglu yn drwsgl wrth geisio cympasu'r lle – a'r ŷd yn glynu wrthych. (9)
28. Aberth y saint wrth gyfrannu? (5)
29. Y deunydd y mae Gwenlan yn ei wau. (7)
30. Gweithgaredd nosol Efa yn mynd yn anllad. (8)
31. Y mae'n harddu'r gwaith wrth drin a naddu'r coed. (6)

I LAWR:

1. Ie, canu sy'n cadw dyn yn hoenus. (6)
2. Tusw o rug Albanaidd sy'n troi i fwrw egin. (7)
3. Creaduriaid bychain hoffus, ond agored ydynt i'w dinistrio. (9)
4. Gerwin i'r eithaf. (6)
5. "Y Dre" i wŷr Pontrhydyfen. (8)
6. Trannoeth yr oedd syniad rhannol gennyf o'r ystyr cudd. (5)
7. Tyfu liliau o'n heiddo o'r newydd. (3-5)
12. "Tra bo –". (3)
15. Nid yw hi'n wir i ddweud ei bod hi wedi cario Weldon yn aflonydd yn ei chôl. (9)
16. "Dengmlwydd, – ci." (Dihareb). (8)
18. Yr hyn a wna'r dysgwr yn 25. (8)
21. Fflŵr gwyn Morgannwg. (3)
22. Broliant ystorm cryfach na'r cyffredin. (?)
24. Rhoi arwydd o gariad, sef peiswyn, yn y canu. (6)
25. Y prentis yn 'mhoelyd yr hen drol wrth fentro. (6)
27. Ar hyn o bryd mae i'w weld mewn planhigyn a wreiddir. (2,3)

## CYSTADLEUAETH RHIF 103

Tocyn llyfr £5 eto. Eich enw a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn Medi'r 15fed, os gwelwch yn dda.



Datrysiad Rhif 102 – Gorffennaf-Awst 1990

## CYSTADLEUAETH RHIF 102

Ymddiheuriad yn gyntaf am dri chambrint yn y cliwiau; un ohonynt yn difetha'r anagram yn y cliw. Er waethaf y cambrintiau, derbyniwyd deuddeg ymgais, a chwech ohonynt yn hollol gywir. Yr enw a dynnwyd oedd I Hughes, 23, St Cadoc Road, Y Mynydd Bychan, Caerdydd, ac fe fydd y tocyn llyfr ar ei ffordd iddo gyda hyn. Y pump cywir ond anlwcus oedd Hywel Jones, y Maendy, Caerdydd; Marged Davies, Llandaf; Huana Simpson, Y Bontfaen; N Mathias, Castellnewydd Emlyn; a Nia Humphreys, Bangor.

## FFARWEL

Gyda chwithdod y ffarweliwn â Huw a Leonie Hall Williams sydd wedi mudo i Langollen. Ond ar yr un pryd dymunwn bopeth o'r gorau i'r teulu bach yn y menter o sefydlu gweithdy crefftau yno. Dyma enghraifft o'r to ifanc cynyddol sy'n mentro i fyd arbrofol digon ansicir. Pob llwyddiant iddynt.

## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Emyr ac Angharad Lewis ar enedigaeth hogyn bach Owain Rhys. Nain a Taid, Tadcu a Mamgu wrth eu bodd. Rhannwn eu llawenydd. Dymunwn yn dda i'r teulu bach yn eu cartref newydd yng Nghraig Cefn Parc.

## LLONGYFARCH

Dymunwn yn dda i Elen ap Robert a Dylan Huws ar achlysur eu priodas yn Minny Street. Fis nesaf gobeithiwn gynnwys llun a mwy o fanylion am y diwrnod mawr. Yn y cyfamser haul ar y fodrwy a phob dymuniad da.

## DYMUNIADAU DA

Dymunwn yn dda i Siriol Williams sydd yn mentro gadael swydd dysgu i fynd am hyfforddiant lleisiol. Gwyddom am ei dawn a hyderwn y bydd yn llwyddo i wneud gyrfa iddi'i hun yn y maes anodd hwn. Pob lwc Siriol.


# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

*Golygydd*
**Shân Emlyn**
5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair
Llandaf, Caerdydd CF5 2EE
☎ 0222 567438

*Hysbysebion*
**Gareth Whelan**
Cae'r Delyn
Sant Hilari
Y Bontfaen
CF7 7DF
☎ 0446 772888

*Dylunio, Cysodi ac Argraffu*
**Huw Davies**
Detheridge Cyf
93 Cowbridge Road East
Caerdydd CF1 9AF
☎ 0222 223525
Ffacs 0222 383760

Dyddiad copi rhifyn Hydref
**14 – 09 – 90**
14,400 o ddarllenwyr

# GWOBRWYON *BAFTA*

**Vae gan BAFTA Cymru flwyddyn eirias o herfeiddiol o'i flaen' medd adeirydd BAFTA Cymru, (cangen Cymru Academi Celfyddydau Ffilm a heledu Prydain), wedi iddo gael ei ail-ethol i'r swydd.**

Mae Richard J Staniforth (Cyfarwyddwr Materion Masnach, Ffilm Cymru) bellach ar ei ail dymor fel Cadeirydd BAFTA Cymru. Roedd yn annerch gweddill Pwyllgor newydd BAFTA Cymru ac aelodau eraill yr Academi oedd yn bresennol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Holiday Inn, Caerdydd (28.6.1990).

Aeth yn ei flaen i ddweud: 'Mae parhad cymorth HTV Cymru/Wales, BBC Cymru/Wales ac S4C wedi galluogi BAFTA Cymru i gyhoeddi ei benderfyniad i drefnu Gwobrwyon Ffilm a Theledu cyntaf Cymru, er mwyn adlewyrchu gwychder gwaith y cyfryngau yng Nghymru, boed yn waith darlledwyr neu gynhyrchwyr annibynnol.'

'Y bwriad yw y bydd y Gwobrwyon yn cydnabod cynhyrchu, yn waith technegol yn ogystal â chelfyddydol, sydd o ansawdd uchel. Rydym yn parhau i drafod hyn gyda phob sector o'r diwydiant.'

Wrth ddwyn gweithgareddau'r flwyddyn aeth heibio i gof, soniodd Richard J Staniforth am y dangosiadau 'actorion a chriw' llwyddiannus iawn, megis Derfydd Aur – Teliesyn; Snow Spider – HTV Cymru/Wales; Snow – BBC Cymru/Wales; Angry Earth – Karl Francis. Cafwyd 'Dangosiadau Am Y Tro Cyntaf yng Nghymru' oedd yn llwyddiannus hefyd, megis Cinema Paradiso a Venus Peter, a rhag-ddangosiadau da ee Living With Dinosaurs yng nghwmni cynhyrchwyr o gwmni'r diweddar Jim Henson.

'Daeth y cwbl i fod trwy gefnogaeth hael y darlledwyr yng Nghymru, yn ogystal â chymorth cwmnïau megis Kodak Motion Pictures a Rank Film Laboratories.'

**Wrth gloi, cynhoeddodd y bydd Marc Evans, Trefnydd BAFTA Cymru ers ei sefydlu, yn gadael. Bydd yn ymuno ag Awdurdod Hybu Iechyd Cymru ym mis Medi, fel Pennaeth Cyfryngau. Rhoddodd bwys arbennig ar hybu nodau elusennol yr Academi yng Nghymru, ee trwy ymgyrchu dros sefydlu Archif Ffilm a Fideo Genedlaethol. Ef hefyd a luniodd In Media Res, adroddiad cynhwysfawr ar ddyfodol ffilm a theledu yng Nghymru, i Gyngor Celfyddydau Cymru.**




*Yn y llun, o'r chwith; yn eistedd – 'Pwyllgor BAFTA Cymru' (1990/1991): Marc Evans, TREFNYDD, BAFTA Cymru; Pennant Roberts, IS-GADEIRYDD, Cynhyrchydd-Gyfarwyddwr ('The Snow Spider'); Richard J Staniforth, CADEIRYDD, Cyfarwyddwr Materion Masnach, Ffilm Cymru; Gareth Rowlands, IS-GADEIRYDD, Cynhyrchydd-Gyfarwyddwr, BBC ('Snow'). Yn y llun, o'r chwaith; yn sefyll:*
*Peter Phillips, Rheolwr Gwasanaethau Cynhyrchu Teledu BBC Cymru/Wales; Marianne Grigg, Uwch-Gynllunydd Coluro, BBC Cymru/Wales; Nigel Crowle, Cynhyrchydd; Rosemary Scadden, Is-Gynhyrchydd, HTV Cymru/Wales; Tony Barnes, Cynhyrchydd Bywddarlunio Annibynnol.*
*Aelodau'r Pwyllgor oedd yn absennol adeg tynnu'r llun:*
*Russell Walker, Dyn Camera, enillydd gwobr BAFTA, BBC Wales; Stella Mair Thomas, Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus, HTV Cymru/Wales.*

# Ysgolion Sul y Ddinas

**Mewn ymdrech i ddatblygu gweithgarwch yr Ysgolion Sul Cymraeg o fewn y ddinas, trefnir hyfforddiant ar gyfer athrawon Ysgol Sul. Fe'i cynhelir ar fore Sadwrn, Medi'r 8fed am 9.30 yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond.**

Daw Nigel Davies, trefnydd yr Ysgolion Sul yn Ne Cymru, yno i arddangos y defnyddiau sy' ar gael ac i sôn am gefndir ac amcanion y gwerslyfrau newydd. Bydd arweiniad i a thrafodaeth ar y llyfrau newydd yn ôl oedran y disgyblion, mewn cylchoedd bychain. Ceir cyfle wedyn i godi unrhyw fater sy'n ymwneud â bywyd yr Ysgol Sul.

Erfyniwn am gefnogaeth holl athrawon yr Ysgol Sul yn y ddinas. Gobeithiwn drefnu rhagor o weithgarwch o dro i dro a fydd yn gymorth i ddatblygu gweithgarwch ein Hysgolion.

**Parch A Andrew Jones**

**DYDDIAD COPI**
**RHIFYN HYDREF**
**14 – 09 – 90**

## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Gwmni Drama'r Fuwch Goch ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth actio drama fer yn Eisteddfod Cwm Rhymni. Hefyd, clywyd adroddiadau da iawan am y ddrama gomisiwn a berfformiodd y cwmni yn Theatr y Maes. Pob hwyl a lwc i'r dyfodol.